

# Rhaglen Gyflawn



north wales economic ambition board  
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Cyfarfod

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD GWENER, 12FED MEHEFIN, 2020**

Lleoliad

**Rhith-gyfarfod**

Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**01286 679490**

**AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 08/06/2020)

# **BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

## **Aelodau a phleidlais**

### **Y Cynghorwyr**

|                   |                                  |
|-------------------|----------------------------------|
| Hugh Evans        | Cyngor Sir Ddinbych              |
| Llinos Medi Huws  | Cyngor Sir Ynys Môn              |
| Mark Pritchard    | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Ian B. Roberts    | Cyngor Sir y Fflint              |
| Dyfrig L. Siencyn | Cyngor Gwynedd                   |
| Sam Rowlands      | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy   |

## **Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais**

|                      |   |
|----------------------|---|
| Dafydd Evans         | Grwp Llandrillo Menai                           |
| Maria Hinfelaar      | Prifysgol Glyndwr                               |
| Yana Williams        | Coleg Cambria                                   |
| Jim Jones            | Cyngor Busnes Gogledd Cymru a<br>Merswy Dyfrdwy |
| Askar Sheibani       | Bwrdd Cyflenwi Busnes                           |
| Yr Athro Iwan Davies | Prifysgol Bangor                                |

## **Prif Swyddogion - Heb Bleidlais**

|                   |                                  |
|-------------------|----------------------------------|
| Annwen Morgan     | Cyngor Sir Ynys Môn              |
| Iwan Davies       | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy   |
| Colin Everett     | Cyngor Sir y Fflint              |
| Judith Greenhalgh | Cyngor Sir Ddinbych              |
| Ian Bancroft      | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Dilwyn Williams   | Cyngor Gwynedd                   |

## **Swyddogion yn bresennol**

|                   |                     |
|-------------------|---------------------|
| Alwen Williams    | Cyfarwyddwr Rhaglen |
| Dafydd L. Edwards | Swyddog Adran 151   |
| Iwan G. Evans     | Swyddog Monitro     |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL 5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y 24 Ionawr 2020 fel rhai cywir.

## 5. PENAWDAU'R TELERAU 9 - 30

Adroddiad gan Alwen Williams, Cyfarwyddwr Rhaglen.

## 6. LLYWODRAETHU RHAGLENNI 31 - 42

Adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau.

## 7. CYTUNDEB LLYWODRAETHU 2 43 - 51

Adroddiad gan Iwan G Evans, Swyddog Monitro – Awdurdod Lletya.

## 8. MODELAU MASNACHOL 52 - 55

Adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau.

## 9. ADRODDIAD ALLDRO 2019/20 56 - 71

Adroddiad gan Dafydd L.Edwards, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya.

## 10. CYLLIDEB 2020/21 72 - 82

Adroddiad gan Dafydd L.Edwards, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya.

## 11. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol.

## **12. ADOLYGIAD GWAELODLIN PROSIECTAU**

I ystyried yr adroddiad (copi ar wahân i'r Aelodau yn unig).

Bydd y wasg a'r cyhoeddi wedi eu cau allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghroau Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau .

## **13. BWRDD CYFLAWNI BUSNES**

Penodi Cadeirydd i'r Bwrdd Cyflawni Busnes (ceisiadau a dogfennau ategol i'w cylchredeg ar wahân ar gyfer aelodau'r Bwrdd yn unig).

Bydd y wasg a'r cyhoeddi wedi eu cau allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma fyddai'n gorbwyso hawliau'r unigolion yma. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.



---

## BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU 24.01.2020

---

### Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cyngorwyr:- Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Sam Rowlands (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Dyfrig L. Siencyn (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr), Yr Athro David Thomas (Prifysgol Bangor), Steve Jackson (Coleg Cambria), Jim Jones (Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Glannau Dyfrdwy) ac Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes).

Prif Swyddogion – Annwen Morgan (Cyngor Sir Ynys Môn), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Judith Greenhalgh (Cyngor Sir Dinbych), Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Colin Everett (Cyngor Sir y Fflint).

Swyddogion yn bresennol – Alwen Williams (Cyfarwyddwr Rhaglen), Dafydd Edwards (Swyddog Cyllid Statudol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Jane Richardson (Cadeirydd Grŵp Swyddogion Gweithredol) ac Annes Sion (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Croesawyd Alwen Williams i'r cyfarfod cyntaf y Bwrdd Uchelgais fel Cyfarwyddwr Rhaglen.

### **1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Yr Athro Iwan Davies (Prifysgol Bangor), Yana Williams (Coleg Cambria) a Dilwyn Williams (Cyngor Gwynedd).

### **2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol ar gyfer eitem 9 – Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes gan y canlynol:

- Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai)
- Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes)

yr oedd yn fuddiant a oedd yn a oedd yn rhagfarnu a bu iddynt adael y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

### **3. MATERION BRYD**

Dim i'w nodi.

### **4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Bwrdd Uchelgais a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2019 fel rhai cywir.

### **5. DIWEDDARIAD CYNNYDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Jane Richardson - Cadeirydd Grŵp Swyddogion Gweithredol y Bwrdd Uchelgais.

## **PENDERFYNWYD**

Nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## **RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn rhoi diweddariad ar y cynnydd gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol. Derbyniwyd diweddariad ar apwyntio pedwar aelod o staff i'r Swyddfa Rhaglen, sydd yn cynnwys Cyfarwyddwr Rhaglen. Hefyd, nodwyd y bydd gweithdy Llywodraethu yn cael ei gynnal ar gyfer 14 Chwefror 2020, ac fe dderbyniwyd diweddariad ar waith Cadeirydd y Bwrdd Uchelgais

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod llawer o waith wedi ei wneud yn dilyn y cyfarfod blaenorol. Mynegwyd fod ffocws clir wedi ei amlygu yn ystod y cyfnod pontio ac amlinellwyd rôl y Bwrdd Uchelgais, Swyddfa Raglen a'r Grŵp Gweithredol. Nodwyd na fydd y Cyfarwyddwr Rhaglen yn Cadeirio'r Grŵp Gweithredol am y tro a bydd Jane Richardson yn parhau fel Cadeirydd.

Amlygwyd fod Gweithdy Llywodraethu wedi ei drefnu ar 14 Chwefror. Mynegwyd yn ogystal fod gwaith wedi ei wneud i gryfhau'r berthynas a Thîm Rhanbarthol Llywodraeth Cymru a thrafodaethau yn cael eu cynnal ar sut y bydd modd gweithio ar y cyd ar y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ac adolygu'r Weledigaeth Twf.

Nodwyd mai un o'r blaenoriaethau nesaf fydd i greu strategaeth gyfathrebu ac i benderfynu beth mae'r Swyddfa Raglen am ei gyflwyno i Ogledd Cymru. Pwysleisiwyd fod angen naratif i'r Gogledd a sut y bydd y Weledigaeth Twf yn gweu i mewn i'r naratif.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Nodwyd balchder fod cydweithio gwell a Llywodraeth Cymru. Mynegwyd pwysigrwydd creu fframwaith ar y cyd ac yr un weledigaeth.
- Trafodwyd y Grŵp Gweithredol gan drafod y gadeiryddiaeth. Pwysleisiwyd yr angen i'r Cyfarwyddwr Rhaglen fod yn aelod gan y bydd yn anodd cyflwyno eitemau ac i gadeirio.
- Pwysleisiwyd yr angen i arwyddo'r Penawdau'r Telerau erbyn mis Hydref. Ychwanegwyd fod angen trafodaeth mewn gweithdy am ba mor hyblyg yw'r ddwy Lywodraeth o ran cynlluniau yn y wedd gyntaf a'r ail. Pwysleisiwyd gan mai prosiectau yw gwraidd yr holl raglen y bydd angen bod yn hyblyg. Mynegwyd yr angen i'r Llywodraeth fod yn gwbl eglur o bryd mae'r prosiectau yn symud i fod yn rhaglen.

## **6. EITEM 6: CYLLIDEB REFENIW 2019/20 – ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER (Rhagfyr 2019).**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dafydd Edwards – Pennaeth Cyllid Statudol.

## **PENDERFYNWYD**

Derbyniwyd yr adolygiad trydydd chwarter o gyllideb y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2019/20, a cytunwyd i drosglwyddo unrhyw danwariant yn 2019/20 i'r gronfa wrth gefn fel y bydd ar gael yn y dyfodol.

## **RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Adroddwyd ar y gwahanol benawdau cyllideb roedd yn gorwario / tanwario, a nodwyd fod amcangyfrif y bydd tanwariant net o £117,424 ar ddiwedd 2019/20, fydd yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn a sefydlwyd ar ddiwedd 2018/19.

Er mwyn gweithredu yn effeithiol, mae angen i'r Cydbwyllgor (y Bwrdd Uchelgais) fod yn ymwybodol o'i sefyllfa gwariant hyd yma a'r rhagamcanion gwariant eleni yn erbyn ei gyllideb flynyddol.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi y bydd y gyllideb ar gyfer 2020/21 yn cael ei thrafod yn y cyfarfod nesaf. Ychwanegwyd nad oes newid mawr wedi bod dros y chwarter diwethaf. Tywyswyd drwy'r daenlen gan bwysleisio fod tanwariant oherwydd bod oediad wedi bod yn penodi'r Cyfarwyddwr Rhaglen. Amlygwyd fod incwm ychwanegol wedi ei ychwanegu ar gyfer grant ESF os fydd y cais yn cael ei gymeradwyo.

Mynegwyd y bydd sefyllfa derfynol yn cael ei drafod ym mis Mehefin, a derbyniwyd y bydd unrhyw danwariant yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn sydd wedi'i chlustnodi,

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Amlygwyd fod arian wrth gefn ar gyfer unrhyw gostau pellach ac i leihau'r baich a'r gofyn am arian gan bartneriaid.
- Holwyd faint o arian sydd yn cael ei drosglwyddo am eleni a faint o arian sydd wrth gefn, nodwyd fod £117,424 yn cael ei drosglwyddo ar gyfer eleni a bydd hyn yn dod a'r cyfanswm i £453,000.

## **7. CAIS ESF**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Cyfarwyddwr Rhaglen

### **PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo'r Strwythur Staffio ar gyfer y Swyddfa Rhaglen, a dirprwyo'r hawl i'r Cyfarwyddwr Rhaglen mewn ymgynghoriad gyda Phrif Weithredwr y Corff Lletya a'r Swyddog Cyllid Statudol i addasu'r strwythur fel yr angen o fewn y gyllideb.

Cymeradwyo'r dyddiadau cychwyn ar gyfer staff o fewn y strwythur staffio, a phenodi i'r Swyddfa Rhaglen cyn y Cytundeb Terfynol, lle mae'r swyddi yn fforddiadwy o fewn y gyllideb graidd a chyllideb ESF (fel y'i rhestrwyd yn rhan 4.2.5 o'r adroddiad).

Penderfynwyd, yn amodol ar y materion sydd wedi ei amlygu yn yr adroddiad, awdurdodi'r Cyfarwyddwr Rhaglen i greu'r swyddi ac ymgymryd â'r broses benodi yn unol â threfniadau a pholisïau'r Corff Lletya.

Penderfynwyd dirprwyo'r hawl i'r Cyfarwyddwr Rhaglen, mewn ymgynghoriad a Prif Weithredwr y Corff Lletya a'r Swyddog Cyllid Statudol i dderbyn cynnig grant gan WEFO yn seiliedig ar 50% o gyfanswm cost y prosiect ar gyfer cyfnod Gorffennaf 2018 at Fehefin 2023. Cadarnhawyd y bydd y Bwrdd Uchelgais yn cyfrannu 50% o arian cyfatebol, yn bennaf drwy gyfuniad o gyfalafu prosiectau a chyllideb graidd.

## **RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Bydd y grant ESF yn rhoi arian i'r rhanbarth i ddatblygu a gweithredu'r Weledigaeth Twf drwy sefydlu Swyddfa Rhaglen. Bydd y Swyddfa Rhaglen yn cychwyn gyda thîm craidd o swyddogion wedi'i ariannu'n rhannol drwy'r grant ESF.

O ran y gyllideb, mynegwyd ei bod yn fwy cost effeithiol i benodi swyddogion yn hytrach na' penodi ymgynghorwyr ar gytundebau llawrydd. Pwysleisiwyd na fydd penodiadau yn cael ei gwneud hyd nes y bydd cadarnhad o'r arian wedi ei dderbyn.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn ddiweddariad ar y cais grant. Amlygwyd y swyddi oedd yn rhan o'r cais a'r dyddiadau ar gyfer penodi a chychwyn y swyddi.

O ran y gyllideb, mynegwyd ei bod yn fwy cost effeithiol i benodi swyddogion yn hytrach na' penodi ymgynghorwyr staff ar gytundebau llawrydd. Pwysleisiwyd na fydd penodiadau yn cael ei gwneud hyd nes y bydd cadarnhad o'r arian wedi ei dderbyn.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Holwyd pryd y bydd cadarnhad oes yn derbyn yr arian. Mynegwyd fod arwyddion yn ymddangos fel y bydd y cais yn cael ei dderbyn a diolchwyd i Gyngor Conwy am y gwaith o baratoi'r cais.
- Trafodwyd y gwahaniaeth rhwng rheolwr rhaglen a rheolwr prosiect. Pwysleisiwyd fod y swyddi yma yn parhau i ddatblygu ac i gael ei addasu er mwyn sicrhau nad oes dyblygu yn benodol wrth edrych ar rôl swyddogion y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol sydd eisoes yn weithredol yn y rhanbarth.
- O ran derbyn yr arian, mynegwyd unwaith yn cael y cadarnhad fod yr arian ar gael y bydd modd gwneud cais am ôl-daliad ac yna yn hawlio'r arian yn chwarterol.

## **8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Penderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol.

## **9. CADEIRYDD Y BWRDD CYFLAWNI BUSNES – RHESTR FER**

### **PENDERFYNIAD**

Bod pedwar o'r ymgeiswyr yn gymwys i'w rhoi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweiliad.

### **RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Byddai tynnu rhestr fer o ymgeiswyr yn un o'r cerrig milltir allweddol yn y broses o recriwtio a phenodi unigolyn i'r swydd allweddol hon.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00yp a daeth i ben am 2.40yp.



---

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**  
**12 MEHEFIN 2020**

---

**TEITL:** *Penawdau'r Telerau*  
**AWDUR:** *Alwen Williams, Cyfarwyddwr Rhaglen*

---

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno fersiwn wedi'i lofnodi o'r cytundeb Penawdau'r Telerau ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru a baratowyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
- 1.2. Paratowyd y Cytundeb Penawdau'r Telerau yng nghyd-destun y Ddogfen Gynnig a'r Cynllun Gweithredu, sydd wedi derbyn cefnogaeth a chymeradwyaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

- 2.1. Bod y Bwrdd yn nodi bod Penawdau'r Telerau wedi'u cwblhau.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

- 3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

- 4.1. Drafftwyd Cytundeb Penawdau'r Telerau gan y ddwy Lywodraeth yng nghyd-destun y Ddogfen Gynnig ac yn unol â'r cynnig gan y Bwrdd Uchelgais o fewn y Cynllun Gweithredu.
- 4.2. Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi trafod a chymeradwyo'r cytundeb Penawdau'r Telerau drafft yn ystod cyfarfod y Bwrdd ar 26 Gorffennaf a 6 Medi. Gwnaethpwyd nifer o ddiwygiadau technegol i fersiwn derfynol y Penawdau'r Telerau dan bwerau dirprwyedig.
- 4.3. Llofnodwyd y Cytundeb Penawdau'r Telerau gan gynrychiolwyr y Bwrdd Uchelgais (Cyng Dyfrig Siencyn a Cyng Mark Pritchard) a Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar 4 Tachwedd 2019.
- 4.4. Llofnodwyd y Cytundeb Penawdau'r Telerau gan weddill cynrychiolwyr y Bwrdd Uchelgais (Cyng Llinos Medi, Cyng Ian Roberts, Cyng Sam Rowlands a Chyng Hugh Evans) yn ystod cyfarfod ar 15 Tachwedd 2019.
- 4.5. Atodir copi o'r Penawdau'r Telerau terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru yn **Atodiad 1**.

---

**ATODIADAU:**

**Atodiad 1** Cytundeb Penawdau'r Telerau

**Tud. 9**

---

## YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

### i. **Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

“Roedd cwblhau y Penawdau Telerau yn cynrychioli carreg filltir allweddol ar gyfer y Cynllun Twf ac ern ad yw yn ymrwymo yn gyfreithiol mae’n cynrychioli ymroddiad gan y partïon i gyd i ddarparu’r adnoddau a chyflawni y Cynllun Twf. Fel y datgenir yn yr adroddiad deilliodd y cwblhau o gytundeb ynglŷn a’r strategaethau allweddol ac ymrwymïadau ar draws y rhanbarth oedd yn caniatáu i’r Arweinyddion arwyddo’r ddogfen. Mae’n darparu llwyfan I symud ymlaen i’r Cytundeb Twf Terfynol , Cytundeb Llywodraethu 2 a chyflawni rhaglenni y Cynllun Twf.”

### ii. **Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

“Mae’r Bwrdd Uchelgais Economaidd wedi croesawu fersiwn diwygiedig y Penawdau’r Telerau drafft yn flaenorol, ac ers hynny mae wedi’i derfynu a’i lofnodi gan yr holl bartïon. Fe wnaeth y Llywodraethau gytuno i rai o’n ceisiadau yn y fersiwn terfynol a gyflwynir yma, a bellach rydym yn bwrw ymlaen tuag at ffurfioli’r Cynllun Twf. Bydd y telerau terfynol i ddilyn yng “Nghytundeb y Cynllun Twf”, sy’n gytundeb cyfreithiol-orfodol, yn ddarostyngedig i adolygiad cynhwysfawr, wrth gwrs.”

# Bargen Twf y Gogledd

## Cytundeb Penawdau'r Telerau



Llywodraeth EM



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Wrth arwyddo'r ddogfen hon, rydym yn cadarnhau ein hymrwymiad ar y cyd i sicrhau gweithredu llawn ar Fargen Twf y Gogledd.




Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns  
Ysgrifennydd Gwladol Cymru  
Llywodraeth y DU



Eluned Morgan AC  
Gweinidog y Gymraeg a  
Chysylltiadau Rhyngwladol  
Llywodraeth Cymru



Y Cynghorydd Sam Rowlands  
Arweinydd  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy



Y Cynghorydd Hugh Evans  
Arweinydd  
Cyngor Sir Ddinbych




Y Cynghorydd Ian Roberts  
Arweinydd  
Cyngor Sir y Fflint



Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn  
Arweinydd  
Cyngor Gwynedd



Y Cynghorydd Mark Pritchard  
Arweinydd  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam



Y Cynghorydd Llinos Medi Huws  
Arweinydd  
Cyngor Sir Ynys Môn



## CEFNDIR

1. Mae rhanbarth Gogledd Cymru yn cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Conwy, Dinbych, Gwynedd, Wrecsam Y Fflint, ac Ynys Môn.
2. Ym mis Rhagfyr 2018, cytunodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gydweithio ac i lywodraethu gyda'i gilydd a gyda Phrifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai, sydd ar y cyd â Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Mersi a'r Ddyfrdwy, yn gweithredu fel Cyngorwyr i'r Awdurdodau Lleol. Mae'r cytundeb cydweithio a llywodraethu yn cael ei adnabod fel Cytundeb Llywodraethu 1, ac mae'n cynnwys cam cynllunio a datblygu'r Awdurdodau Lleol ar gyfer Bargaen Twf y Gogledd (BTYG).
3. Mae'r cydweithio rhwng ac o fewn yr Awdurdodau Lleol a'r Cyngorwyr, sy'n cael ei ddisgrifio yng Nghytundeb Llywodraethu 1, yn cael ei adnabod fel Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Dan Gytundeb Llywodraethu 1, mae'r Awdurdodau Lleol wedi ffurfio Pwyllgor ar y Cyd, sef trefniant contract ar gyfer y Bwrdd, at ddibenion cydlynu a chynllunio cyflawni *Gweledigaeth Twf y Gogledd*, gyda phwyslais cychwynnol ar y Fargaen Twf.
4. Mae dyheadau'r Bwrdd ar gyfer y rhanbarth drwy'r Fargaen Twf wedi'u nodi mewn dogfen gynnig o'r enw *Bargaen Twf y Gogledd: Dogfen Gynnig* a gafodd ei mabwysiadu a'i chefnogi gan yr Awdurdodau Lleol a'r Cyngorwyr ym mis Hydref 2018. Mae *Gweledigaeth Twf y Gogledd a'r Ddogfen Gynnig* wedi cael eu datblygu ar y cyd gan yr Awdurdodau Lleol a'u Cyngorwyr, a gydag ymgysylltiad y sectorau busnes a chyrrff sy'n cynrychioli'r sector preifat yn y rhanbarth. Yn ddiweddar, mae gwaith y Bwrdd wedi cael ei gefnogi gan Fwrdd Cyflawni Busnes Gogledd Cymru, sef panel arbenigol o entrepreneuriaid y sector preifat.
5. Mae'r Cyd-bwyllgor eisiau gweithio ar sail rolau teg ar draws ei aelodaeth ehangach. Mae'r cyngorwyr wedi'u cyfyngu i rôl gynghori, ac nid oes ganddynt hawliau pleidleisio llawn, oherwydd cyfyngiadau cyfraith llywodraeth leol bresennol ar gyfer cydbwyllgorau statudol.
6. Ar y cyd, mae'r Awdurdodau Lleol, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cael eu cyfeirio atynt yn y ddogfen hon fel y Partïon.

7. Mae'r Awdurdodau Lleol, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd i benderfynu ar Fargen Twf. Mae Penawdau'r Telerau hyn yn nodi'r cwmpas a fwriedir ar gyfer y Fargen Twf sy'n ceisio trawsnewid economi rhanbarthol Gogledd Cymru drwy gyflawni twf trawsnewidiol a gwasgareddig ar draws y rhanbarth. Mae ei themâu yn adlewyrchu'r Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru. Ym Mhenawdau'r Telerau hyn, mae'r Partïon yn ymrwmo i gydweithio i geisio penderfynu ar Fargen Twf a fydd yn trawsnewid economi rhanbarthol Gogledd Cymru.
8. Bydd y Bwrdd yn penodi un o'r Awdurdodau Lleol i fod yn gyfrifol am dderbyn a gwario'r cyllid ar gyfer y Fargen Twf ar gyfer ac ar ran yr Awdurdodau Lleol, a bydd y corff hwnnw'n cael ei alw'n Gorff Atebol. Bydd y Corff Atebol yn gweithredu fel y prif gyswllt ar gyfer yr Awdurdodau Lleol eraill, Cyngorwyr a sefydliadau partner eraill, a gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Bydd y Corff Atebol yn gyfrifol am y cyllid, a byddant yn rhyddhau'r cyllid yn unol â thelerau'r fath arian yn unig. Y Corff Atebol ar ddyddiad Penawdau'r Telerau hyn, a dan Gytundeb Llywodraethu 1, yw Cyngor Gwynedd. Bydd Cytundeb Llywodraethu 2 yn cadarnhau pwy fydd y Corff Atebol ar gyfer cyfnod cyflawni'r Fargen Twf.
9. Y Bwrdd fydd y prif gorff sy'n gyfrifol am gyflawni'r Fargen Twf, ac am ei llwyddiant cyffredinol, ar gyfer atebolrwydd democrataidd, gwleidyddol a chyhoeddus, a bydd yn cael ei gefnogi gan y Corff Atebol a fydd yn rhyddhau ei gyfrifoldebau, ar ran y Bwrdd, fel y nodir uchod.
10. Y bwriad yw y bydd y Fargen Twf yn cael ei dogfennu mewn cytundeb y bydd y Corff Atebol, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru'n ymrwmo iddi ("Cytundeb Terfynol y Fargen Twf"). Bydd y Partïon yn anelu at orffen Cytundeb Terfynol y Fargen Twf o fewn 12-15 mis o ddyddiad Penawdau'r Telerau hyn.
11. Cyn cwblhau Cytundeb Terfynol y Fargen Twf, bydd y Bwrdd yn hwyluso trefniadau lle bydd y Corff Atebol yn ymrwmo i gytundeb llywodraethu mwy manwl (h.y. Cytundeb Llywodraethu 2) gyda phartneriaid eraill a fydd yn diffinio'r berthynas rhwng y Corff Atebol, yr Awdurdodau Lleol eraill a'r Cyngorwyr ymhellach ar gyfer cyfnod cyflawni'r Fargen Twf.

## **CRYNODEB GWEITHREDOL**

- 12.** Mae Penawdau'r Telerau hyn wedi cael eu creu at ddibenion amlinellu egwyddorion cyffredinol y Fargen Twf, ac i gofnodi ar ba sail y bydd y Partïon yn cydweithio ar ddatblygiad y Fargen Twf. Ni fwriedir i Benawdau'r Telerau hyn fod yn gyfreithiol rwymol, ac ni fydd unrhyw oblygiadau cyfreithiol, neu hawliau cyfreithiol yn codi rhwng y Partïon o ganlyniad i Benawdau'r Telerau hyn.
- 13.** Ni fwriedir i unrhyw beth ym Mhenawdau'r Telerau hyn, neu y tybir i sefydlu unrhyw bartneriaeth neu fenter ar y cyd rhwng y Partïon, ac ni ystyrir iddynt wneud hynny, na gwneud unrhyw Barti yn asiant i Barti arall, nac awdurdodi unrhyw un o'r Partïon i wneud nac ymrwymo i unrhyw beth i nac ar ran unrhyw Barti arall.
- 14.** Mae pob un o'r ymrwymadau hyn ym Mhenawdau'r Telerau hyn yn amodol ar gwblhau Cytundeb Terfynol y Fargen Twf, ac mae unrhyw gyllid a roddir yn amodol ar y llywodraeth/au yn cymeradwyo achosion busnes sy'n unol â pholisïau perthnasol adrannau a'r llywodraeth, gan gynnwys yr hyn a nodir yn Llyfr Gwyrdd y Trysorlys ac yng Nghanllawiau Gwell Achosion Busnes Llywodraeth Cymru, a nodi'r pwerau cyfreithiol priodol.
- 15.** Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn bwriadu cynnig buddsoddiad o hyd at £120 miliwn fel rhan o'r Fargen Twf dros y 15 mlynedd nesaf, yn amodol ar gymeradwyaeth terfynol y llywodraeth/au o achosion busnes cadarn, yn unol â methodoleg Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM a Gwell Achosion Busnes sy'n cadarnhau bod y Rhaglenni a'r Prosiectau'n hyfyw, yn rhoi gwerth am arian, yn gynaliadwy ac yn cydymffurfio â rheoliadau cymorth gwladol.
- 16.** Mewn sefyllfa lle nad yw cyflawni'r Fargen Twf o fewn y terfynau y cytunwyd arnynt, a'i fod yn arwain at leihad neu at roi diwedd ar raglen/prosiect a'i gyllid perthnasol fel rhan o'r Fargen Twf, yna cyfrifoldeb pob Awdurdod Lleol fydd rheoli effaith ariannol hynny o fewn ei gyllideb awdurdod lleol. Caiff Awdurdodau Lleol a phartneriaid rhanbarthol ymrwymo i drefniadau ymysg eu hunain i reoli hyn (er enghraifft, dan delerau Cytundeb Llywodraethu 2).
- 17.** Mae'r Bwrdd yn amcangyfrif y bydd y cyfraniad cyllideb refeniw'r chwech (6) Awdurdod Lleol yn tua £5 miliwn, gyda rhan fawr o hwnnw'n cael ei wario ar ariannu'r hyn mae angen ei fenthycu er mwyn cyflawni Prosiectau'r Fargen Twf dros gyfnod o 15 mlynedd, a rhan lai yn cael ei wario ar ariannu costau blynyddol rheoli prosiectau a rhaglenni.

18. Rhagwelir y bydd cyfanswm y buddsoddiad yn y Fargen Twf yn hyd at £945miliwn. Bydd hyn yn cynnwys hyd at £240miliwn gan y Llywodraeth, £500miliwn gan y sector preifat, a £200miliwn o arian arall o'r sector cyhoeddus. Bydd Awdurdodau Lleol yn cyfrannu £5miliwn o gyllidebu referniw, ac arian cyllid cyfalaf rhaglen a fydd yn cael ei gadarnhau a'i gynnwys yng Nghytundeb Terfynol y Fargen Twf.
19. Bydd rhaid i bob rhan o'r Fargen Twf brofi sut y bydd yn cyfrannu at ddatblygu'r rhanbarth fel rhan o Bortffolio o 6 o Raglenni'r Fargen Twf, fel y diffinnir isod:
- Gweithgynhyrchu Uwch;
  - Ynni Carbon Isel
  - Twristiaeth a Diwydiannau'r Tir
  - Cysylltedd Digidol
  - Trafnidiaeth Strategol; a
  - Tir ac Eiddo.
20. Mae gan ranbarth Gogledd Cymru boblogaeth breswyl o 690,000 sy'n byw mewn ardal o 6,500 km<sup>2</sup>. Mae'n rhanbarth gwledig gyda dwysedd poblogaeth o 106 o bobl/km<sup>2</sup>. Ar hyn o bryd, mae Gogledd Cymru'n cyfrannu tua £14.4 biliwn y flwyddyn at economi Cymru ac economi'r DU.

## Y CYFLE

21. Mae'r Bwrdd wedi nodi'r heriau canlynol sy'n wynebu economi Gogledd Cymru:
- Er y cynnydd mewn GYC yn y rhanbarth, mae yna amrywiaeth mawr o ran GYC y pen rhwng Gorllewin a Dwyrain y rhanbarth. Mae'r GYC yng Ngogledd Cymru yn parhau i fod yn is na chyfartaledd y DU.
  - Mae rhai rhannau o'r rhanbarth yn dibynnu ar sectorau/swyddi incwm isel. Mae rhai ardaloedd yn ddibynnol iawn ar y sector cyhoeddus.
  - Er bod gwelliannau o ran cyflogaeth a diweithdra wedi bod yn y rhanbarth, nid yw cyfraddau anweithgarwch economaidd wedi gwella, ac maent yn uwch na chyfartaledd y DU.
  - Er bod lefelau cyflogaeth a diweithdra'n gwella, mae cynnydd mewn sectorau 'gwerth uchel' yn yr economi wedi bod yn gyfnewidiol iawn

dros y bum mlynedd ddiwethaf, gyda gostyngiad mewn twf yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

- Ychydig o fentrau mawr sydd yn y rhanbarth, yn enwedig yn y Gogledd Orllewin, ac mae yna heriau'n gysylltiedig â thyfu busnesau y tu hwnt i feintiau bach a chanolig.
- Gwella sgiliau'r gweithlu presennol ac annog pynciau STEM/digidol.
- Mae poblogaeth yr ardal yn heneiddio, ac mae llawer o dalent yn allfudo o'r ardal.
- Mae cysylltedd digidol ar draws yr ardal yn parhau i gyflwyno heriau i fentrau ac i unigolion. Mae seilwaith yn parhau i fod ar ei hôl hi o'i gymharu â gweddill y DU o ran capasiti a darpariaeth.

22. Mae'r Bwrdd wedi sefydlu partneriaeth ranbarthol gadarn i yrru ei economi, ac mae ei *Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru* yn nodi'r heriau a'r cyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer yr economi ranbarthol dros y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r Bwrdd yn nodi'n glir iawn y bydd rhaid iddynt wneud y canlynol er mwyn i'r economi ffynnu:

- **Adeiladu ar eu cryfderau i hybu cynhyrchiant, ac fel rhanbarth:**
  - Bod yn un o'r lleoliadau sydd ar y blaen yn y DU o ran cynhyrchu ynni carbon isel ac arbenigedd a buddsoddiad cadwyn cyflenwi sy'n ymwneud ag ynni;
  - Manteisio ar y rhwydwaith cryf o gwmnïau angori sydd â phroffil rhyngwladol i adeiladu clwstwr gweithgynhyrchu blaengar; Dod yn ganolfan ar gyfer arloesedd a rhagoriaeth technoleg, ac yn arweinydd wrth droi syniadau cyffrous yn gynnyrch/gwasanaethau masnachol cryf.
  - Datblygu a gwarchod enw da Gogledd Cymru ymhellach fel canolfan ragoriaeth ar gyfer twristiaeth a diwydiannau'r tir, gan osod ein hunain fel prif atyniad twristiaeth antur y DU.
- **Mynd i'r afael â heriau strwythurol hirdymor a rhwystrau economaidd allweddol** yn yr ardal, fel trafnidiaeth, seilwaith digidol, safleoedd a manau segur, a phroblemau cyflogaeth a sgiliau. Bydd ymyrraeth o'r fath yn cefnogi ac yn galluogi'r sector preifat fuddsoddi mewn swyddi a thwf.
- **Hybu twf cynhwysol**, gan fynd i'r afael ag anghysondebau ac anghydraddoldeb gofodol a chymdeithasol yn yr ardal. Mae twf cynhwysol yn rhan ganolog o'n Rhaglen Bergen Twf, a bydd yn:
- **Mynd i'r afael â materion sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau strategol ar gyfer twf** fel y nodir yn nogfennau allweddol y polisi, fel y *Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru*, Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU.

23. Mae'r Bwrdd yn nodi bod gan fuddsoddiad y llywodraeth, sef £240miliwn, y gallu i sicrhau 4,000 o swyddi, cefnogi cynnydd o 5% mewn GPA, a sicrhau mwy na £500miliwn mewn buddsoddiad gan y sector preifat dros y 15 mlynedd nesaf.
24. Bydd y buddsoddiad hwn hefyd yn galluogi'r ardal i gynnig sail gyflogaeth a sgiliau sy'n bodloni anghenion y farchnad lafur presennol ac yn y dyfodol, a bydd yn mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd mewn ffordd gadarn a phenderfynol, gan alluogi a chefnogi pobl i gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth.
25. Gan adeiladu ar y buddsoddiad hwn, fe ddylai gwaith y Bwrdd fod yn gatalydd ar gyfer cydweithredu ehangach i gyflawni'r Fargen Twf yn ogystal ag amcanion Llywodraeth Cymru drwy'r Cynllun Gweithredu Economaidd, ac amcanion Llywodraeth y DU drwy ei Strategaeth Ddiwylliannol.
26. Mae'r bwrdd hefyd yn gobeithio cynyddu gweithgarwch datblygu ac ymchwil yn ogystal â masnachu syniadau ac arloesedd, yn enwedig mewn ynni carbon isel, gweithgynhyrchu uwch, a diwydiannau twristiaeth y tir. Bydd hyn yn gwella ac yn cynyddu cynhyrchiant a'n cyfraniad ni at yr economi genedlaethol.
27. Bydd y Bwrdd yn ffurfio Swyddfa Raglen i gydlynu'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r ymyrraeth strategol, gan gynnwys Prosiectau Bargaen Twf. Bydd y Swyddfa Raglen yn weithredol erbyn cyfnod cyflawni'r Fargen Twf, a bydd yn Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Rheoli Prosiectau a Rhaglenni, yn gyfrifol am ddatblygiad, gweithredu a monitro trefniadau a phrosesau'r Rhaglen a'r Prosiect. Bydd y safonau a'r prosesau y bydd y Swyddfa Raglen yn eu mabwysiadu yn seiliedig ar arferion gorau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. Bydd yn cefnogi gweithgareddau'r Bwrdd, ac yn cynnal perthynas waith agos gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
28. Er mwyn sicrhau hyder yn yr ardal, sicrhau bod buddsoddiadau'n cyflawni newid trawsnewidiol ac yn rhoi hyblygrwydd i'r ardal allu ymateb i newidiadau economaidd a thechnolegol, mae'r Bwrdd wedi cynnig bod y Fargen Twf yn cael ei chyflawni mewn dau gam (Cam 1 a Cham 2). Mae'r dull hwn yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru a gan Lywodraeth y DU, gan gydnabod bod mwy o waith manwl angen ei wneud ar gynnwys Cam 2. Mae Penawdau'r Telerau hyn wedi'u nodi ym manylion Prosiectau Cam 1. Dylai'r Bwrdd sicrhau bod y rhaglenni hyn yn parhau i ymateb i dystiolaeth sy'n ymddangos, ac i anghenion yr economi dros y cyfnod hwn o 15 mlynedd.

29. Mae Cam 1 yn cynnwys 6 Prosiect sydd wedi'u datblygu o'r *Ddogfen Gynnig* ac mae'r Bwrdd yn ystyried y Prosiectau hyn yn rhai parod. Er bod y dull hwn yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru a gan Lywodraeth y DU, mae angen rhagor o waith ar y Rhaglenni ac ar y Prosiectau cyn y cytundeb Bargen Lawn a chymeradwyaeth cyllid.
30. Mae cyllid y Rhaglen a'r Prosiect yn amodol ar greu a chael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar achos busnes yn unol â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM a methodoleg Gwell Achosion Busnes.
31. Bydd rhagor o fanylion ar gynnwys Cam 1 a Cham 2, yn ogystal â'r cynllun i'w rhoi ar waith, yn dilyn yng Nghytundeb Terfynol y Fargen Twf. Bydd Cytundeb Terfynol y Fargen Twf yn cynnwys cynllun gweithredu manwl; cynllun ariannol sy'n ystyried fforddiadwyedd yn ystod oes ddisgwyliedig y Fargen Twf; cynllun llywodraethu cyflawn a sicrhau yn ogystal â fframwaith monitro ac adolygu; gweithdrefn datrys anghydfod; a chytundebau lefel gwasanaeth.
32. Mae union ddyraniad buddsoddiadau'r ddwy Lywodraeth, sef £240m, yn parhau i fod yn hyblyg ar draws Rhaglenni a Chamau ar gyfer y cam nesaf o ddatblygiad Rhaglenni, yn seiliedig ar ac yn unol â methodoleg Gwell Achosion Busnes.
33. Bydd Prosiectau sy'n cael eu dewis i gael eu cynnwys yng Ngham 2 erbyn Cytundeb Terfynol y Fargen Twf yn cael ei nodi yn y cytundeb hwnnw o dan y rhaglen berthnasol. Efallai y bydd Prosiectau eraill yn cael eu cynnwys yng Ngham 2 gyda chaniatâd ysgrifenedig y Llywodraeth/au yn unol â chyfundrefnau a fydd yn cael eu nodi yng Nghytundeb Terfynol y Fargen Twf.
34. Bydd y Bwrdd yn datblygu Prosiectau i gael eu cyflawni yn unol â'r Rhaglenni sydd â'r gallu i ysgogi newid trawsnewidiol ar draws Gogledd Cymru, a denu nifer sylweddol o fuddsoddiad ychwanegol o'r sector cyhoeddus.
35. Bydd y Fargen Twf yn cael ei chyflawni fel yr amlinellir yn y cynllun gweithredu manwl ac yn unol â'r ymrwymadau a fydd yn cael eu datblygu fel rhan o Gytundeb Terfynol y Fargen Twf. Bydd goblygiadau peidio â bodloni'r amodau a'r ymrwymadau hyn hefyd yn cael eu cytuno arnynt ac yn cael eu nodi yng Nghytundeb Terfynol y Fargen.

36. Bydd y bwrdd hefyd yn gweithio â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gytuno ar strategaeth gyfathrebu a phrotocol gweithredu. Bydd y ddwy ddogfen yn nodi sut fydd cyfathrebiadau ynglŷn â'r Fargen Twf a gweithgareddau perthnasol yn cael eu gwneud mewn ffordd a fydd yn bodloni anghenion yr Awdurdodau Lleol yn ogystal â'r ddwy lywodraeth. Bydd strategaethau cyfathrebu'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl, gan gynnwys defnydd yr iaith Gymraeg.

## **Y RHAGLENNI**

37. Mae'r wybodaeth yn Atodiad A yn diffinio portffolio ardaloedd y rhaglen yn fanwl, yn ogystal â'r gweithgareddau a nodwyd gan y Bwrdd ar gyfer Cam 1 y Fargen Twf. Bydd cefnogaeth ar gyfer y prosiectau hyn sy'n cael eu datblygu'n amodol ar ddatblygu a chymeradwyo achosion busnes, a hynny er boddhad y llywodraeth/au, ac ar gytuno ar ddogfen derfynol y fargen.
38. Bydd y Bwrdd, gan weithredu drwy'r Corff Atebol, yn cynnig achosion busnes yn unol â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM a methodoleg Gwell Achosion Busnes i gyflawni'r Rhaglenni a nodir isod, a fydd yn amodol ar gymeradwyaeth yn yr un modd a nodir yn y Cytundeb Terfynol y Fargen Twf.
39. Bydd rhaid i'r llywodraethau perthnasol fod yn fodlon bod gwybodaeth ar gyfer yr Achosion Busnes y rhaglenni a'r Prosiectau arfaethedig yn ymarferol, yn gynaliadwy, yn sicrhau gwerth am arian, ac yn sicrhau enillion addas ar fuddsoddiad, cyn y bydd yr arian yn cael ei roi. Bydd rhaid i'r llywodraethau hefyd fod yn fodlon bod yr achosion busnes yn cydymffurfio â rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol.

### **Rhaglen Seilwaith Digidol**

40. Mae'r ddwy Lywodraeth yn cydnabod bod cysylltedd digidol yn dod yn fwyfwy pwysig i sut mae pobl yn gweithio, yn cyfathrebu ac yn ffynnu yn y byd modern. Ar yr un pryd, mae'r ddwy lywodraeth yn gweld y potensial ar gyfer technolegau newydd i hwyluso arloesi ar raddfa fawr a thwf economaidd, yn enwedig o fewn y sector BBaCh i gynyddu ei gystadleurwydd.



41. Mae'r galw am fand eang cyflym a chysylltedd ffonau symudol yng Ngogledd Cymru wedi cyd-fynd â'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ddaearyddol yn yr ardal yn is na chyfartaledd y DU. Pan ddaeth technoleg ffeibr optig ar gael yn fasnachol ar ddiwedd yr 20fed ganrif, mae yna gyfle amlwg i sicrhau bod Gogledd Cymru mewn sefyllfa dda i fanteisio ar dechnolegau newydd i roi'r ardal ar flaen y gad o ran cysylltedd digidol yn y DU.
42. Y nod yw sicrhau bod Gogledd Cymru wedi'i leoli ar flaen y gad o ran cysylltedd digidol ac arloesedd. Yn ogystal â darpariaeth gynhwysfawr fel rhan o'r amgylchedd busnes modern, bydd Gogledd Cymru mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y technolegau newydd wrth iddynt ddod ar gael yn ystod hyd oes ddisgwyliedig y fargen.
43. Bydd rhaid i fuddsoddiadau ddangos eu bod yn gallu ychwanegu gwerth at raglenni eraill o fewn y Fargen Twf a chefnogi hanfodion economi Gogledd Cymru.

### **Rhaglen Ynni Carbon Isel**

44. Mae Gogledd Cymru'n rhanbarth sydd â hanes cyfoethog o ran cynhyrchu ynni carbon isel, gan gynnwys Storfa Bwmpio Dinorwig a datblygiad Gwynt Y Môr. Mae hefyd wedi cadw potensial sylweddol ar gyfer creu a storio rhagor o ynni adnewyddadwy. Ond, mae yna heriau amrywiol yn wynebu cyflawniad llawer o brosiectau. Mae cyfyngiadau grid, risg cynllunio, capasiti, a mynediad at gyllid yn heriau y mae datblygwyr ynni adnewyddadwy ar draws y sector cyhoeddus, cymunedol a phreifat yn gorfod eu goresgyn.
45. Bydd cyflawni'r Rhaglen Ynni Carbon Isel yn cyfrannu at ddatblygu Gogledd Cymru i fod yn un o brif leoliadau'r DU ar gyfer cynhyrchu ynni a buddsoddiad cadwyn gyflenwi yn ymwneud ag ynni, gydag arbenigedd mewn technolegau carbon isel, ynni adnewyddadwy a storio ynni.
46. Bydd y Rhaglen yn darparu catalyddion allweddol i hybu ac i helpu i siapia Gogledd Cymru â seilwaith modern ac o safon i gynnal a hyrwyddo twf cynaliadwy yn y sector ynni carbon isel, a hybu arloesi a thechnoleg newydd.

## **Rhaglen Tir ac Eiddo**

47. Bydd y Rhaglen tir ac eiddo yn mynd i'r afael â diffyg tir cyflogaeth a thai yng Ngogledd Cymru sydd wedi cael ei nodi gan y Bwrdd fel rhwystr i dwf economaidd ar draws yr ardal. Bydd y Rhaglen yn nodi sut y bydd yn cefnogi sectorau cefnogi allweddol fel gweithgynhyrchu uwch, ynni carbon isel, twristiaeth a diwydiannau'r tir.
48. Nodwyd yn nogfen adolygu tai annibynnol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru nad yw'r angen am dai yng Nghymru yn cael ei fodloni. Mae Amcangyfrifon o'r Angen am Dai yng Nghymru ar Lefel Genedlaethol a Rhanbarthol (yn seiliedig ar 2018) Ystadegau Cymru'n tua 2,000 o dai yn uwch na'r amcangyfrifon o dai newydd.
49. Mae Porthladd Caergybi yn hanfodol bwysig i Ynys Môn ac i economi ehangach Gogledd Cymru. Dyma brif borth byrddio/glanio ar gyfer gogledd Lloegr, Cymru a chanolbarth Lloegr ar gyfer Môr Iwerddon, ac mae'n ffurfio rhan allweddol o lwybrau masnach rhyngwladol. Mae'n hanfodol bwysig i'r DU ar y cyfan, gan ddarparu cyswllt 'rholio ymlaen - rholio i ffwrdd' allweddol i Weriniaeth Iwerddon.
50. Fel yr angorfa dŵr dwfn agosaf at Wylfa Newydd a'r prosiectau ynni adnewyddadwy arfaethedig, mae Caergybi yn y lle perffaith i fanteisio i'r eithaf ar werth y buddsoddiadau hyn yng Ngogledd Cymru, gan greu mwy o swyddi a ffyniant dros nifer o flynyddoedd. Mae'r porthladd yn darparu seilwaith sylweddol ar gyfer economi Gogledd Cymru drwy ddarparu angorfeydd ar gyfer llongau, a theithwyr o Weriniaeth Iwerddon.

## **Rhaglen Gweithgynhyrchu Uwch**

51. Bydd y Rhaglen Gweithgynhyrchu Uwch yn manteisio ar y rhwydwaith cryf o gwmnïau angori gyda phroffil rhyngwladol, yn ogystal ag arbenigedd blaenllaw i hybu arloesi a thechnoleg newydd i ddatblygu clwstwr gweithgynhyrchu uwch pwerus— un a fydd yn gystadleuol iawn ar lwyfan ryngwladol.
52. Mae'r rhain yn fentrau sy'n defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd technolegol blaenllaw i greu cynnyrch, cynhyrchu a phrosesau a gwasanaethau cysylltiol. Bydd adeiladu'r sector hwn yn yr ardal yn gwella cynhyrchiant yn sylweddol, ac yn cyflawni twf economaidd cynaliadwy.

53. Bydd y Fargen Twf yn darparu adnoddau blaenllaw mewn adnoddau a fydd yn arwain y sector, gan adeiladu ar arbenigedd y rhanbarth i fanteisio i'r eithaf ar effaith economaidd ymchwil a thechnoleg. Bydd hyn yn rhoi hwb i gystadleurwydd fyd-eang y sector BBaCh yn y rhanbarth.
54. Bydd y Rhaglen hon hefyd yn adeiladu ar lwyddiant buddsoddiad diweddar Llywodraeth Cymru, ac yn sefydlu synergedd a chydweithio agos gyda'r Athrofa Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch newydd, gan ddarparu busnesau ag adnoddau o safon uchel, ymchwil ac arloesedd mewn meysydd allweddol ar draws yr ardal. Bydd y Rhaglen hon yn sicrhau bod gan y rhanbarth arbenigedd blaengar a rhwydwaith o ganolfannau o'r radd flaenaf er mwyn hybu arloesi a thechnoleg newydd mewn sectorau economaidd allweddol.

### **Rhaglen Twristiaeth a Diwydiannau'r Tir**

55. Bydd y Rhaglen hon yn adeiladu ar sector sefydledig amaethyddiaeth, bwyd a diod yng Ngogledd Cymru, yn ogystal â chefnogi buddsoddiad bellach mewn twristiaeth o safon uchel er mwyn ehangu'r tymor twristiaeth.
56. Bydd y Fargen Twf yn anelu i adeiladu economi sylfaenol lewyrchus yn y rhanbarth, gan fanteisio ar werth economaidd ein hamgylchedd a'n tirwedd. Y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a thwristiaeth yw asgwrn cefn llawer o economïau lleol y rhanbarth. Amcan y Partïon yw chefnogi busnesau yn y sectorau hyn, sy'n rhannau annatod o'u cymunedau lleol, i gynyddu eu cynhyrchiant, annog datblygu sgiliau, a datblygu modelau busnes mwy cynaliadwy drwy wella eu mynediad at arloesi a thechnoleg newydd.
57. Bydd y Partïon yn datblygu ac yn gwarchod enw da Gogledd Cymru fel canolfan ragoriaeth ar gyfer twristiaeth uchel ei werth, a thwristiaeth adrenalin yn enwedig, gan adeiladu ar fuddsoddiadau diweddar a phortffolio o fwy a mwy o atyniadau drwy'r flwyddyn. Mae'r Partïon yn anelu i sicrhau y bydd y Fargen Twf yn chefnogi rhagor o welliannau i brofiad ymwelwyr yn y rhanbarth, ac i ehangu safon lleoliadau allweddol.

## **Rhaglen Trafnidiaeth Strategol**

58. Bydd y Rhaglen Trafnidiaeth Strategol yn cefnogi rhoi'r gorau i ddefnyddio cerbydau tanwydd carbon, a dechrau defnyddio trafndiaeth garbon isel neu di-garbon ar draws Gogledd Cymru.
59. Un rhan allweddol o'r rhaglen fydd datblygu canolfannau trafndiaeth integredig a chyflwyno atebion trafndiaeth garbon isel, mewn ardaloedd trefol a gwledig drwy ddefnyddio manau gwefru ceir trydan a llwybrau carbon isel penodol.
60. Gan integreiddio â Phrosiectau eraill y Fargen Twf, a'r Prosiectau Ynni Clyfar yn enwedig, bydd yn datblygu prosiectau peilot ar gyfer rhwydweithiau trafndiaeth di-garbon ar draws Gogledd Cymru.

## **LLYWODRAETHU A SICRWYDD**

61. Bydd arweinyddiaeth a llywodraethu cryf ac effeithiol yn hollbwysig i weithredu a darparu sicrwydd i lywodraethau ac i'r Awdurdodau Lleol yn llwyddiannus. Hyd yma, mae'r Fargen Twf wedi cael ei datblygu ar y cyd gan yr Awdurdodau Lleol a'r Cynghorwyr, a gydag ymgysylltiad helaeth â'r sectorau busnes a chyrrff cynrychioladol y sector preifat yn y rhanbarth.
62. Mae Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol yn cytuno y byddant, ar ddiwedd Gytundeb Terfynol y Fargen Twf, yn rhan o berthynas a fydd yn para 15 mlynedd a fydd angen datblygu ac addasu. Bydd pob Parti yn defnyddio ymdrechion rhesymol i gynnal a datblygu proses effeithiol ar y cyd i sicrhau bod eu perthnasoedd yn datblygu'n addas ac yn unol â unrhyw egwyddorion y cytunwyd arnynt yng Nghytundeb Terfynol y Fargen Twf. Mae Llywodraethau'n cydnabod Gweledigaeth Twf hirdymor y Bwrdd a'i rôl fel partner yn yr amcan tymor hir ar gyfer y rhanbarth.
63. Dros gyfnod 15 mlynedd y Fargen Twf, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn bwriadu darparu arian i'r Corff Atebol ar sail flynyddol. Bydd rhyddhau cyllid yn amodol brosesau sicrwydd a monitro y cytunwyd arnynt o'r hyn sy'n cael ei gyflawni gan yr Awdurdodau Lleol at fodlonrwydd y ddwy lywodraeth, a chymeradwyaeth achosion busnes llawn.
64. Bydd yr Awdurdodau Lleol yn dangos ymarferoldeb, hyfywedd, ac achos gwerth am arian ar gyfer pob Prosiect cyn y bydd arian ar gael.

65. Dylai'r Awdurdodau Lleol, trwy'r Bwrdd, ddatblygu Cynllun Cymeradwyo a Sicrwydd Integredig (CCSI) o arferion gorau ar gyfer y Fargen Twf. Bydd rhaid i'r Awdurdodau Lleol ystyried y broses Adolygu Porth OGC™ fel rhan allweddol o'r CCSI.
66. Bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gofyn i bum achos methodoleg Gwell Achosion Busnes gael ei fabwysiadu ar gyfer datblygu achosion busnes, a bod y fargen yn cael ei rheoli fel Portffolio o Raglenni a Phrosiectau.
67. Bydd Rhaglenni a Phrosiectau'n cael eu harwain yn lleol a dan berchnogaeth leol, a bydd y Corff Atebol yn gyfrifol am reolaeth ariannol y Fargen Twf ar ran y Bwrdd. Cyfrifoldeb Awdurdodau Lleol a'r partneriaid rhanbarthol fydd rheoli goblygiadau ariannol y rhaglenni a'r prosiectau o fewn eu cyllidebau eu hunain.
68. Bydd yr Awdurdodau Lleol yn sefydlu ac yn mireinio model llywodraethu rhwng aelodau'r Bwrdd drwy Gytundeb Llywodraethu 2 fel rhan o fuddsoddiad newydd yn economi'r rhanbarth, a bydd Gweinidogion o'r ddwy lywodraeth yn disgwyl y bydd trefniadau llywodraethu'r Awdurdodau Lleol yn cynnwys rheolaeth effeithiol gydag arweinwyr busnes a diwydiant yn ogystal â'r sector addysg drydyddol a'r trydydd sector, gan gynnwys Cynghorwyr.
69. Bydd Bwrdd Cyflawni Gogledd Cymru yn cynnwys cynrychiolwyr y sector preifat ac yn cael ei gadeirio ganddynt. Bydd yn darparu cyngor, cymorth a heriau annibynnol i'r Bwrdd i sicrhau bod cynigion sy'n cael eu cynnig a'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn adlewyrchu diddordebau'r sector preifat.

## **FFYRDD O WEITHIO**

70. Bydd y Partion yn cytuno i weithio mewn partneriaeth ac i gydweithio i ddatrys unrhyw broblemau sy'n codi yn ystod hyd oes y Fargen Twf.
71. Bydd y Partion yn ymrwmo i dryloywder yn eu gweithgareddau ac wrth wneud penderfyniadau, ond hefyd yn cydnabod bod rhai sefyllfaoedd lle bydd rhaid i'r Partion sicrhau cyfrinachedd er mwyn i berthnasau weithio'n effeithiol, yn enwedig wrth ymdrin â sensitifwydd masnachol.
72. Bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn mynd ati i ymateb i'r Partion mewn modd prydlon yn ôl protocolau y cytunwyd arnynt sydd wedi'u nodi yng Nghytundeb Terfynol y Fargen Twf.

**73.** Bydd y Partïon yn mynd ati i ddarparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen i alluogi'r llywodraeth ymgymryd â dadansoddiadau, sicrhau a monitro angenrheidiol er mwyn rhyddhau cyllid yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni.

## Atodiad A Camau Bargaen Twf y Gogledd

Dyma'r Rhaglenni a'r Prosiectau sydd wedi'u nodi ar hyn o bryd gan y Bwrdd fel Prosiectau disgwylidig Cam 1. Mae'r rhain yn amodol ar ddatblygu'r achos busnes, yn unol â Llyfr Gwyrdd y Trysorlys a Gwell Achosion Busnes, ac ar gytuno i'w cynnwys yng Nghynllun Terfynol y Fargaen Twf.

### CAM 1 Rhaglenni a Phrosiectau.

#### Rhaglen Ddigidol

Bydd y **Rhaglen Seilwaith Digidol** yn canolbwyntio ar wella arloesedd a seilwaith digidol yn y rhanbarth. Bydd yn rhoi mynediad o safon at gysylltedd digidol effeithiol a fforddiadwy i fusnesau ac i dai, a bydd yn rhoi hwb i arloesedd mewn signal digidol. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n bennaf drwy gyflawni seilwaith band eang ffeibr newydd ar draws y rhanbarth i gefnogi a galluogi busnesau i dyfu ac i arloesi.

Bydd y Rhaglen Ddigidol yn gweithredu fel buddsoddiad ganiatáu ar gyfer y Fargaen Twf i sicrhau bod buddsoddiadau sy'n cael eu gwneud gan bob Parti yn cael eu denu'n addas, ac yn ysgogi twf economaidd. Mae cysylltiad gwell hefyd yn cynyddu arloesedd a chynhyrchiant ar draws yr economi, gan ddod â buddion economaidd sylweddol. Mae ymchwil annibynnol yn awgrymu y gallai cyflymder band eang gwell ychwanegu £17 biliwn at allbwn y DU erbyn 2024.

Felly, mae Llywodraeth y DU yn ymrwymo cyllid cyfalaf dros gyfnod o 15 mlynedd i gefnogi datblygiad y canlynol:

#### **a. Ffeibr llawn mewn safleoedd allweddol**

Sicrhau cysylltiadau amrywiol cadarn a chynnal marchnad cysylltedd digidol cystadleuol mewn safleoedd allweddol. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ymestyn seilwaith pibellau mewn pedair canolfan fusnes ranbarthol allweddol i ehangu darpariaeth gystadleuol o fand eang gigabit, a darparu cysylltiad afraid deul, capasiti uchel i safleoedd anghysbell allweddol.

#### **b. Campysau Cysylltiedig**

Sefydlu 'campysau cysylltiedig' yn y safleoedd allweddol (Abergele, Parc Cybi, Llangefni a'r safle Ferodo) – gan gynnig y cyswllt mwyaf blaengar ar y safleoedd, a galluogi i'r cysylltiad ymestyn i'r ardaloedd cyfagos (yn enwedig mewn safleoedd anghysbell). Bydd Campws Gwledig yn cynnwys Rhwydweithiau Ardal Eang Pŵer Isel (LPWAN) sydd wedi'u lledaenu'n eang ar draws ardaloedd helaeth yn y rhanbarth, gan gefnogi cynhyrchiant ac arloesedd, yn enwedig mewn amaethyddiaeth, rheolaeth amgylcheddol ac wrth ddarparu gwasanaeth cyhoeddus.

### c. Coridor Logisteg Cysylltiedig

Bydd technoleg berthnasol yn cael ei chyflwyno'n fasnachol, dan gonsesiynau ar lwybrau ffyrdd a rheilffyrdd o bosibl, e.e. LPWAN, 5G. Dymuniad Cynllun Gweithredu'r Fargen Twf yw darparu hwb strategol cychwynol i ranbarth Gogledd Cymru drwy weithredu coridor cysylltiedig yn gynnar ar hyd y coridor masnachol allweddol drwy goridor ffyrdd yr A55/A483/A494.

### d. Cysylltu'r Ganran Fach Olaf

Mae diffyg cysylltiad band eang cyflym iawn yn amharu ar ddatblygiad busnesau, sy'n arwain at ganlyniadau fel amddifadedd a diboblogi. Bydd ymyrraeth yn mynd i'r afael â'r ganran fach olaf o lefydd na fydd yn cael eu cynnwys yn y rhaglen flaenorol i Gyflymu Cymru 2.

## Rhaglen Ynni Carbon Isel

Mae Gogledd Cymru wedi cronni buddion gwirioneddol dros y blynyddoedd o'r diwydiant pŵer niwclear, gan gynnwys y camau cynnar o adeiladu Wylfa a Thrawsfynydd, ac yna ar hyd oes y ddwy orsaf. Mae'r diwydiant yn parhau i elwa ar Fwa niwclear y Gogledd Orllewin, sy'n ymestyn o Sir Fôn a Thrawsfynydd yn y Gorllewin i'r safleoedd yng Nghumbria a gweithgareddau ymchwil a datblygu ym Manceinion yng Ngogledd Orllewin Lloegr.

Fodd bynnag, yr hyn na gyflawnwyd oedd creu nifer o swyddi hirdymor, sgiliau lefel uchel ac o werth uchel y tu allan i'r rhai a oedd yn gysylltiedig yn uniongyrchol â chynhyrchu pŵer. Mae'r Fargen Twf yn cynnig cyfle i ddenu buddion economaidd sylweddol drwy ddatblygu arbenigedd niwclear ehangach a chreu swyddi sgiliau lefel uchel, gwerth uchel yn gysylltiedig ag ymchwil a datblygu.

Bydd y **Prosiect Rhwydwaith Ynni Clyfar** Lleol yn gwneud y canlynol:

- Cynyddu capasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy Gogledd Cymru drwy gydweithio â datblygwyr prosiectau ynni'r sector preifat, prifysgolion a chynlluniau ynni adnewyddadwy awdurdodau lleol,
- Cydweithio â SP Energy Networks a'r Grid Cenedlaethol i gael gwared ar rwystrau seilwaith buddsoddiad ynni,
- Datblygu pedwar cynllun cynhyrchu ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a phrosiectau peilot grid clyfar i archwilio atebion arloesol i heriau ynni lleol, gan sicrhau bod y rhanbarth yn manteisio i'r eithaf ar gyllid ymchwil ac arloesi sydd ar gael,
- Datblygu endid neu Ganolfan Ynni Rhanbarthol ac Arloesi cynaliadwy sy'n addas i gefnogi dyheadau'r Weledigaeth Twf er mwyn helpu i gefnogi gweithgareddau sydd ar y gweill mewn ynni, ac er mwyn ei wneud yn addas ar gyfer y dyfodol.



Gan ategu buddsoddiad Llywodraeth y DU, bydd y sector preifat ac Awdurdodau Lleol yn buddsoddi £238m o gyllid cyfalaf i gefnogi prosiectau cynhyrchu ynni carbon isel yng Ngogledd Cymru dros gyfnod o 15 mlynedd, ac yn creu 800MW o gapasiti ynni adnewyddadwy.

Bydd Llywodraeth y DU yn ymrwymo cyllid cyfalaf i gefnogi'r gwaith o baratoi'r safle yn safle **Magnox Trawsfynydd** ar gyfer y posibilrwydd o ddefnyddio technolegau adweithydd modiwlwr bychan a datblygedig.

Bydd Llywodraeth y DU yn ymrwymo cyllid cyfalaf i gefnogi datblygiad Canolfan Ragoriaeth Ynni Niwclear a Chanolfan Werthuso ac Ardystio Diwydiannol ym Mhrifysgol Bangor ac ar Ynys Môn, yn ogystal â'r sector preifat ac Awdurdodau Lleol a fydd yn buddsoddi cyllid cyfalaf.

### **Rhaglen Tir ac Eiddo**

**Rhaglen Tir ac Eiddo Rhanbarthol.** Mae diffyg tir cyflogaeth a thai yng Ngogledd Cymru sydd wedi cael ei nodi gan y Bwrdd fel rhwystr i dwf economaidd ar draws yr ardal.

Nodwyd yn nogfen adolygu tai diweddar, a gyhoeddwyd gan banel annibynnol Llywodraeth Cymru, nad yw'r angen am dai yng Nghymru yn cael ei fodloni. Mae Amcangyfrifon o'r Angen am Dai yng Nghymru ar Lefel Genedlaethol a Rhanbarthol (yn seiliedig ar 2018) Ystadegau Cymru'n tua 2,000 o dai yn uwch na'r amcangyfrifon o dai newydd.

Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, bydd y sector preifat ac Awdurdodau Lleol yn ceisio cyflawni'r canlynol:

- 30 ha o dir busnes;
- 20,000 m<sup>2</sup> o ofod busnes; a
- 1000+ o blotiau tai â seilwaith ar gael ar gyfer datblygu.

**Caergybi (Porth Gogledd Cymru).** Mae Porthladd Caergybi yn hanfodol bwysig i Ynys Môn ac i economi ehangach Gogledd Cymru. Dyma brif borth byrddio/glanio ar gyfer gogledd Lloegr, Cymru a chanolbarth Lloegr ar gyfer Môr Iwerddon, ac mae'n ffurfio rhan allweddol o lwybrau masnach rhyngwladol. Mae'n hanfodol bwysig i'r DU ar y cyfan, gan ddarparu cyswllt 'rholio ymlaen - rholio i ffwrdd' allweddol i Weriniaeth Iwerddon.

Fel yr angorfa dŵr dwfn agosaf at Wylfa Newydd a'r prosiectau ynni adnewyddadwy arfaethedig eraill, mae Caergybi yn y lle perffaith i fanteisio i'r eithaf ar werth y buddsoddiadau hyn yng Ngogledd Cymru, gan greu mwy o swyddi a ffyniant dros nifer o flynyddoedd. Mae'r porthladd yn darparu seilwaith sylweddol ar gyfer economi twristiaeth Gogledd Cymru drwy ddarparu angorfeydd ar gyfer llongau, a theithwyr o Weriniaeth Iwerddon.

Mae'r Prosiect yn cynnwys pedair elfen gysylltiedig:

- Arolygon helaeth (amgylcheddol, strwythurol ac ati) mewn perthynas â'r morglawdd sydd wedi'i restru
- Cynllun Adfer Morglawdd i sicrhau uniondeb hirdymor y cyfleuster hanfodol hwn yn dilyn cwblhau'r arolygon
- Adfer hyd at 17 acer o dir ar gyfer ystâd y porthladd a elwir yn Ynys yr Halen – ei ailddatblygu fel angorfa aml-bwrpas a dalfa hyblyg i fodloni anghenion trafndiaeth forwrol fodern. Datblygu angorfa môr dwfn i alluogi i longau mawr ddod i Gaergybi (nid ydynt yn gallu gwneud hynny ar hyn o bryd); gan ddarparu cyfleusterau i gefnogi adeiladu a gwasanaethu prosiectau ynni mawr gyda chapasiti llwytho/dadlwytho trwm.
- Creu cyfleusterau mynediad a gadael gwell drwy adeiladu platfform rheilffordd hirach sydd wedi'i orchuddio, a ffordd newydd a gwell i adael y Porthladd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried buddsoddi cyllid cyfalaf er mwyn gwneud Porthladd Caergybi'n addas ar gyfer y dyfodol, gan ddarparu cyfleusterau môr dwfn a llwytho trwm, sicrhau cyfanrwydd strwythurol y morglawdd, gwella cyfleusterau mynediad a gadael y Porthladd, a manteisio i'r eithaf yn economaidd ar brosiectau ynni Gogledd Cymru. I ategu buddsoddiad Llywodraeth Cymru, bydd y sector preifat ac Awdurdodau Lleol yn buddsoddi cyllid cyfalaf gyda'r nod o greu 1,250 o swyddi newydd, a chefnogi 1,500 o swyddi drwy wariant llongau mordeithio newydd.



---

## ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

12 Mehefin, 2020

---

**TEITL:** *Trefn Lywodraethol y Rhaglenni*

**AWDUR:** *Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau*

---

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno trefniadau llywodraethu arfaethedig y rhaglenni er mwyn cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru.

### 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cadarnhau'r egwyddor o fabwysiadu dull rheoli rhaglenni a phrosiectau i gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cynnwys sefydlu Byrddau Rhaglen i oruchwylio'r cyflawni gweithredol.

2.2. Cymeradwyo strwythur cyflawni arfaethedig fel sydd wedi'i amlinellu yn **Atodiad 1** a Chylch Gorchwyl arfaethedig y Bwrdd Rhaglen fel sydd wedi'i amlinellu yn **Atodiad 2**.

2.3. Cymeradwyo penodi Uwch Swyddogion Cyfrifol a Dirprwy Uwch Swyddogion Cyfrifol fel sydd wedi'i amlinellu yn **Atodiad 3** a phenodi Aelod Arweiniol o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i eistedd ar bob Bwrdd Rhaglen.

2.4. Nodi y bydd yr is-grwpiau presennol ar gyfer Ynni a Digidol yn cael eu disodli gan y Byrddau Rhaglen unwaith y byddent wedi'u sefydlu.

2.5. Dirprwyo'r hawl i'r Cyfarwyddwr Rhaglen, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro a'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol i weithredu trefniadau llywodraethu'r rhaglen a gwneud yr holl benodiadau eraill i'r Byrddau Rhaglen.

### 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae angen i'r Swyddfa Rhaglen fabwysiadu model llywodraethu'r rhaglenni i sicrhau bod Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.

### 4. CEFNIDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn bortffolio cymhleth sydd ar hyn o bryd yn cynnwys 14 prosiect ar draws chwe rhaglen waith, gyda chyfanswm gwerth o tua £1 biliwn i'w cyflawni dros y 15 mlynedd nesaf. Mae Rhaglen Sgiliau ychwanegol yn eistedd y tu allan i delerau'r Cynllun Twf ond mae'n gydran hanfodol o gyflawni'r weledigaeth ar gyfer y Gogledd. Caiff ei gyflawni gan y Swyddfa Rhaglen, ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, partneriaeth o chwe awdurdod lleol, dwy brifysgol, dau sefydliad addysg bellach a chynghor busnes. O ystyried graddfa a chymhlethdod y bartneriaeth a phortffolio'r gwaith sydd i'w gyflawni, mae angen sefydlu model clir ar gyfer llywodraethu'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau.

- 4.2. Cynigir bod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn mabwysiadu model cyflawni sy'n seiliedig ar ddull arfer gorau ar gyfer rheoli'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau fel sydd wedi'i amlinellu yn 'Government Functional Standard GovS 002: Project Delivery'. Mae rheoli'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau yn ffordd integredig o fodloni uchelgeisiau'r sefydliad, gan annog gwell penderfyniadau a chynyddu'r tebygolrwydd o gael deilliannau llwyddiannus.
- 4.3. Mae **Atodiad 1** yn amlgu'r dull llywodraethu arfaethedig.
- 4.4. Mae **Atodiad 2** yn amlinellu Cylch Gorchwyl arfaethedig y Bwrdd Rhaglen.
- 4.5. Mae **Atodiad 3** yn amlinellu penodiadau arfaethedig Uwch Swyddog Cyfrifol a Dirprwy Uwch Swyddog Cyfrifol y Rhaglen

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 5.1. Dim ar hyn o bryd.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 6.1. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn seiliedig ar fodel arfer gorau fel sydd wedi'i amlinellu yn 4.2 uchod. Mae gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru rym o fewn GA1 i sefydlu naill ai is-bwyllgorau statudol neu grwpiau eraill i gefnogi ei swyddogaethau. Yn yr achos hwn, nid yw is-bwyllgorau ffurfiol yn cael eu cynnig.

## 7. GOBLYGIADAU STAFFIO

- 7.1. Dim ar hyn o bryd.

## 8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

- 8.1. Dim ar hyn o bryd.

## 9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIUYD

- 9.1. Trafodwyd cynnwys yr adroddiad hwn yn y Grŵp Cefnogaeth Weithredol ar 6 Mawrth, 15 Mai a 3 Mehefin, 2020.

---

### ATODIADAU:

|                  |   |
|------------------|---|
| <b>Atodiad 1</b> | Datblygu model Llywodraethu'r Portffolio, y Rhaglenni a'r Prosiectau er mwyn cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru |
| <b>Atodiad 2</b> | Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer Byrddau Rhaglen  |
| <b>Atodiad 3</b> | Penodiadau arfaethedig Uwch Swyddog Cyfrifol a Dirprwy Uwch Swyddog Cyfrifol y Rhaglen                          |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

"Rwyf wedi cyfrannu at adran gyfreithiol yr adroddiad. Nid oes gennyf unrhyw sylwadau pellach i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

"Yn gyffredinol, rwy'n gefnogol i'r trefniadau llywodraethu rhaglenni arfaethedig. Hyderaf y bydd grymoedd gwario yn cael eu cadw gan y Cyd-bwyllgor (Y Bwrdd Uchelgais) a'r Cyfarwyddwr Rhaglen, fel sy'n briodol."



## ATODIAD 1:

### Datblygu model Llywodraethu'r Portffolio, y Rhaglenni a'r Prosiectau er mwyn cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru

#### 1. Y Cyd-destun

Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn bortffolio cymhleth sydd ar hyn o bryd yn cynnwys 14 prosiect ar draws chwe rhaglen waith, gyda chyfanswm gwerth o tua £1 biliwn i'w cyflawni dros y 15 mlynedd nesaf. Mae Rhaglen Sgiliau ychwanegol yn eistedd y tu allan i delerau'r Cynllun Twf ond mae'n gydran hanfodol o gyflawni'r weledigaeth ar gyfer y Gogledd. Caiff ei gyflawni gan y Swyddfa Rhaglen, ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, partneriaeth o chwe awdurdod lleol, dwy brifysgol, dau sefydliad addysg bellach a chyngor busnes.

O ystyried graddfa a chymhlethdod y bartneriaeth a phortffolio'r gwaith sydd i'w gyflawni, mae angen sefydlu model clir ar gyfer llywodraethu'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau.


#### 2. Mabwysiadu dull gweithredu arfer gorau

Cynigir bod y Bwrdd Uchelgais yn mabwysiadu model cyflawni sy'n seiliedig ar ddull arfer gorau ar gyfer rheoli'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau fel sydd wedi'i amlinellu yn 'Government Functional Standard GovS 002: Project Delivery'.

Mae rheoli'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau yn ffordd integredig o fodloni uchelgeisiau'r sefydliad, gan annog gwell penderfyniadau a chynyddu'r tebygolrwydd o gael deilliannau llwyddiannus.

#### 3. Strwythur Cyflawni Arfaethedig

Mae'r diagram isod yn amlinellu strwythur cyflawni arfaethedig ar gyfer y Cynllun Twf gan adeiladu ar y strwythurau presennol sydd wedi'u rhoi yn eu lle gan GA1.



### Lefel Strategol a Phortffolio

**Y Bwrdd Uchelgais** - Mae'r Bwrdd Uchelgais yn gweithredu fel Grŵp Ariannu (Sefydliad) a'r Corff Gwneud Penderfyniadau. Mae'r holl hawliau dan y lefel hon wedi'u dirprwyo i bartion perthnasol fel sydd angen drwy benderfyniad ffurfiol gan y Bwrdd Uchelgais. Ein disgwyliad yw y byddai aelod o'r Bwrdd Uchelgais yn cymryd rôl Aelod Arweiniol ar gyfer pob un o'r rhaglenni ac yn eistedd ar y Bwrdd Rhaglen perthnasol.

**Y Grŵp Cefnogaeth Weithredol** - Mae'r grŵp hwn yn parhau yn ei rôl fel y corff ymgynghorol i'r Bwrdd Uchelgais ond mae hefyd yn gweithredu fel y Bwrdd Portffolio ar gyfer y Cynllun Twf i gefnogi a herio Cyfarwyddwr Rhaglen y Cynllun Twf i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni. Ein disgwyliad yw y byddai aelod o'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol yn gweithredu fel Uwch Berchennog Cyfrifol ar gyfer pob un o'r rhaglenni ac arwain y Bwrdd Rhaglen perthnasol.

**Cyfarwyddwr Rhaglen** - Mae'r Cyfarwyddwr Rhaglen yn atebol i'r Bwrdd Uchelgais ar gyfer cyflawni portffolio'r Cynllun Twf.

### Lefel Rhaglenni a Phrosiectau

**Swyddfa Rheoli Rhaglen** - Mae'r Swyddfa Rhaglen yn cefnogi ac yn cydlynu gweithgareddau ar draws y rhaglenni gan weithredu fel hwb gwybodaeth a sicrhau bod dulliau adrodd, rheoli risg a materion yn gyson. Yn ogystal, mae'n gweithredu fel rôl sicrwydd werthfawr, gan roi cyngor a her i raglenni a phrosiectau.

**Byrddau Rhaglen** - Bydd gan bob rhaglen Fwrdd Rhaglen ffurfiol ac Uwch Berchennog Cyfrifol wedi'i benodi. Bydd y byrddau hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu (i ddechrau) a chyflawni Achos Busnes cytûn y Rhaglenni, gyda ffocws penodol ar y buddion a'r deilliannau i'w cyflawni. Mae'r Byrddau Rhaglen yn uwchgyfeirio i'r Bwrdd Portffolio drwy'r Cyfarwyddwr Rhaglen.

**Byrddau Prosiect** - Bydd Byrddau Rhaglen yn penderfynu ar yr angen am Fyrddau Prosiect penodol; fodd bynnag, rhagwelir y bydd angen Byrddau Rhaglen penodol ac Uwch Berchennog Cyfrifol ar bob prosiect o fewn y Cynllun Twf. Bydd y byrddau hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu (i ddechrau) a chyflawni Achos Busnes cytûn y Rhaglenni, gyda ffocws penodol ar y buddion a'r deilliannau i'w cyflawni. Mae'r Byrddau Prosiect yn uwchgyfeirio i'r Bwrdd Rhaglen.

### Aelodaeth y Bwrdd Rhaglen

Bydd gan bob Bwrdd Rhaglen Gylch Gorchwyl cytûn a fydd yn gosod cylch gwaith y Bwrdd ynghyd â phrotocolau clir ynghylch sut yr ymdrinnir â gwrthdaro buddiannau.

Mae'r Cylch Gorchwyl arfaethedig wedi ei osod yn Atodiad 2.

### Trefniadau Monitro ac Adrodd

Caiff trefniadau monitro ac adrodd priodol eu rhoi yn eu lle ar bob lefel

### Buddiannau sy'n Gwrthdaro

Fel rhan o ddatblygu'r model llywodraethu hwn a GA2 caiff Protocol Gwrthdaro Buddiannau ei ddatblygu. Bydd hyn yn ymestyn o'r Cod cyfredol sy'n canolbwyntio ar fuddiannau personol i fuddiannau'r sefydliadau a'r cyrff a allai fod â rolau fydd yn cwmpasu cyflawni prosiectau a rôl cymeradwyo a chraffu ar yr ochr comisiynu. Bydd y Protocol yn sicrhau bod y gwrthdaro hyn yn cael eu diffinio, eu hadnabod a'u rheoli er mwyn sicrhau bod hyder rhanddeiliaid a'r cyhoedd ym mhriodoldeb y prosesau yn cael ei sicrhau yn amlwg.

#### **4. Perthynas ag Is-bwyllgorau ac Is-grwpiau presennol**

##### Is-bwyllgorau

Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi sefydlu Is-fwrdd Trafnidiaeth sy'n is-bwyllgor ffurfiol, ond nid yw'r Bwrdd Uchelgais wedi bwrw ymlaen â'r strwythur ehangach a ragwelwyd yn GA1. Caiff dull gweithredu is-bwyllgorau ac is-grwpiau ei adolygu fel rhan o ddatblygu GA2 gyda'r nod o greu model sy'n adlewyrchu'r ddealltwriaeth ddatblygedig o'r strwythur atebolrwydd a llywodraethu priodol. Ni chaiff y gwaith o gyflawni rhaglenni'r Cynllun Twf ei reoli ar lefel pwyllgor; fodd bynnag, caiff trefniadau monitro ac adrodd priodol rhwng Byrddau Rhaglen a'r Bwrdd Uchelgais eu sefydlu.

##### Is-grwpiau

Mae dau is-grŵp anffurfiol yn eu lle ar hyn o bryd ar gyfer y rhaglenni Ynni a Digidol. Cynigir i'r is-grwpiau hyn gael eu disodli gan y Byrddau Rhaglen newydd i roi rhagor o ffocws ar gyflawni a threfn llywodraethu ac atebolrwydd gliriach.

#### **5. Perthynas gyda'r Cyrff Ymgynghorol\***

##### Grŵp Cyflawni Busnes

Fel sydd wedi'i amlinellu yn ei Gylch Gorchwyl, mae'r Grŵp Cyflawni Busnes yn gweithredu fel ymgynghorydd i'r Bwrdd Uchelgais a bydd yn chwarae rôl allweddol wrth ddatblygu achosion busnes y rhaglenni a'r prosiectau gan sicrhau bod barn ac arbenigedd y sector preifat yn hysbysu datblygiad a blaenoriaethu prosiectau. Bydd y Swyddfa Rhaglen yn gweithio gyda Chadeirydd y Grŵp Cyflawni Busnes i sefydlu'r adborth perthnasol a'r dulliau adrodd hyd at y Grŵp Cefnogaeth Weithredol a'r Bwrdd Uchelgais.

##### Y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn eistedd y tu allan i strwythur llywodraethu'r Bwrdd Uchelgais gyda mandad penodol gan Lywodraeth Cymru; fodd bynnag, bydd y Bartneriaeth yn chwarae rôl allweddol wrth gyflawni'r Rhaglen Sgiliau fel ymgynghorydd i'r Bwrdd ynghyd â darparu strwythur lle gall y Bwrdd gomisiynu darnau gwaith penodol gan Swyddfa Rhaglen y Bartneriaeth.

*\* Er mai dim ond dau gorff ymgynghorol a adlewyrchir yma, mae nifer o gyrff ymgynghorol eraill ar draws y rhanbarth sy'n cefnogi gwaith y Bwrdd, er enghraifft y Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol.*





## Atodiad 2: Bwrdd Rhaglen - Cylch Gorchwyl DRAFFT (Generig)

### Llywodraethu

Mae Byrddau Rhaglen yn rhan allweddol o strwythur cyflawni Rheolaeth Prosiect Portffolio Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Portffolio, Rhaglen a Phrosiect), fel y dangosir isod. Maen nhw'n grwpiau llywodraethu dan arweiniad swyddogion.




Diagram 1: Strwythur Cyflawni Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

### Pwrpas

Mae gan y Bwrdd Rhaglen y cyfrifoldebau a ganlyn:

- Goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu Achosion Busnes y Rhaglen a'u hadolygu wedi hynny;
- Goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu achosion busnes y prosiectau o fewn y Rhaglen;
- Paratoi argymhellion i'r Bwrdd Portffolio a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ymwneud â'r rhaglen a'i phrosiectau;
- Goruchwyllo perfformiad a chyflawniad y rhaglen a'i phrosiectau, gan adrodd i'r Bwrdd Portffolio a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru;
- Yn gyfrifol am reoli risg a materion o fewn y Rhaglen (yn cynnwys y rhai a gaiff eu codi o'r lefel prosiect), gan eu cyfeirio pan fo angen i'r Bwrdd Portffolio a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru;
- Darparu cyngor i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar faterion yn ymwneud â chyfeiriad strategol y rhaglen a Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru.

## Achos Busnes

Bydd Achos Busnes cymeradwy'r Rhaglen yn amlinellu'r achosion strategol, economaidd, masnachol, ariannol a rheolaeth y bydd y Bwrdd Rhaglen yn cyflawni yn eu herbyn.

## Uwch Berchennog Cyfrifol

Y Cyfarwyddwr Rhaglen yw'r Uwch Berchennog Cyfrifol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn penodi Uwch Berchennog Cyfrifol y Rhaglen i arwain y rhaglen a chefnogi'r Cyfarwyddwr Rhaglen i gyflawni. Gall Uwch Berchennog Cyfrifol y Rhaglen benodi Dirprwy oddi fewn i'r Bwrdd Rhaglen.

## Atebolrwydd

Mae'r Cyfarwyddwr Rhaglen yn atebol i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru a'i raglenni. Caiff y Cyfarwyddwr Rhaglen ei chefnogi yn y rôl hon gan Uwch Berchennog Cyfrifol y Rhaglen, y Bwrdd Rhaglen a'r Swyddfa Rhaglen.

## Adrodd

Bydd y Bwrdd Rhaglen yn cynhyrchu adroddiadau perfformiad misol a gaiff eu cyflwyno i'r Swyddfa Rhaglen. Bob chwarter, caiff yr adroddiadau hyn eu cyflwyno i'r Bwrdd Portffolio a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Lle bo angen, bydd y Cyfarwyddwr Rhaglen yn cyfeirio materion i'r Bwrdd Portffolio a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru y tu allan i'r cylch adrodd arferol.

Caiff yr holl adroddiadau i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru eu cyflwyno fel drafft i'r Bwrdd Portffolio eu hystyried.

## Pwerau Gwneud Penderfyniadau

Ni fydd gan y Bwrdd Rhaglen unrhyw bwerau ffurfiol i wneud penderfyniadau. Gall Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ddewis dirprwyo rhai pwerau i'r Cyfarwyddwr Rhaglen yn ymwneud â chyflawni'r achosion busnes cymeradwy.

Ni ragwelir y bydd angen trefniadau pleidleisio ar y Bwrdd Rhaglen, gan y bydd yn dod i gytundeb drwy gonsensws. Os mynegir safbwynt neu farn wahanol, caiff y rhain eu cofnodi a'u cynnwys mewn unrhyw broses adrodd.

## Aelodaeth

Mae Aelodaeth y Bwrdd Rhaglen fel a ganlyn:

| <b>Aelodaeth Graidd</b>   |                                      |
|---|--------------------------------------|
| <b>Uwch Berchennog Cyfrifol y Rhaglen</b>                             |                                      |
| <b>Rheolwr y Rhaglen</b>  |                                      |
| <b>Aelod Arweiniol</b>  |                                      |
| <b>Cynrychiolwyr Partneriaid (uchafswm o 9)</b>                       |                                      |
| <b>Aelodau eraill (gallant fynychu Byrddau Rhaglen yn achlysurol)</b> |                                      |
| <b>Swyddfa Rhaglen</b>  | Alwen Williams - Cyfarwyddwr Rhaglen |

|   |   |
|---|---|
|   | Hedd Vaughan-Evans - Rheolwr Gweithrediadau   |
| <b>Arweinwyr y Prosiectau (Sefydliadau nad ydynt yn Bartneriaid) neu Reolwyr Prosiect</b> | Cânt eu gwahodd ar ddisgresiwn yr Uwch Berchennog Cyfrifol ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda.   |
| <b>Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol</b>   |   |
| <b>Y Cyngor Busnes</b>  | Noder: Dim ond ar gyfer y Byrddau nad ydynt yn aelodau craidd ohonynt.                              |
| <b>Mynychu oherwydd Eitemau Penodol ar yr Agenda</b>                                      | Cânt eu gwahodd ar ddisgresiwn yr Uwch Berchennog Cyfrifol i gyflwyno eitemau penodol ar yr agenda. |
| <b>Gwasanaethau Corfforaethol</b>   | Cynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Corfforaethol fel sydd angen e.e. Cyllid, Cyfreithiol, Caffael.      |

Mae rolau a chyfrifoldebau aelodau'r Bwrdd Rhaglen wedi'u hamlinellu yn Atodiad A.

### **Cadeirydd**

Caiff y Bwrdd Rhaglen ei gadeirio gan yr Uwch Berchennog Cyfrifol. Yn ei absenoldeb, caiff y Bwrdd Rhaglen ei gadeirio gan y Dirprwy Uwch Berchennog Cyfrifol neu'r Rheolwr Rhaglen.

### **Trefn y cyfarfodydd**

Caiff agenda a phapurau cyfarfodydd y Bwrdd Rhaglen eu cylchredeg o leiaf bum niwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

Gwneir cofnodion o bob Bwrdd Rhaglen gan gynnwys unrhyw bwyntiau gweithredu a chânt eu cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf. Y Swyddfa Rhaglen fydd yn ymgymryd â'r rôl hon.

### **Cworwm**

Er mwyn i'r Bwrdd Rhaglen gytuno a chyflwyno argymhellion, bydd o leiaf 50% o'r aelodaeth graidd yn cynnwys yr Uwch Berchennog Cyfrifol (neu Ddirprwy enwebedig) yn bresennol.

### **Amllder**

Bydd y Bwrdd Rhaglen yn cyfarfod yn fisol i ddechrau. Caiff amllder y cyfarfodydd ei adolygu wrth i'r rhaglen aeddfedu.

### **Cefnogaeth i'r Bwrdd Rhaglen**

Darperir cefnogaeth gan y Swyddfa Rhaglen.

### **Adolygu**

Bydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei adolygu o leiaf bob blwyddyn, fodd bynnag, gall yr Uwch Berchennog Cyfrifol neu'r Swyddfa Rhaglen wneud hyn unrhyw bryd.

### **Atodiad A - Rolau a chyfrifoldebau Aelodau'r Bwrdd Rhaglen.**

### **Atodiad B - Tabled Agenda Safonol**

## Atodiad A - Rolau a chyfrifoldebau Aelodau'r Bwrdd Rhaglen.

| Rôl  | Cyfrifoldeb   |
|--|---|
| <b>Aelod Bwrdd Rhaglen (Cyfrifoldeb ar y Cyd)</b>                  | <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Gweithredu er budd gorau rhanbarth y Gogledd;</li> <li>▪ Sicrhau bod y Bwrdd Rhaglen yn cyflawni ei gyfrifoldebau fel sydd wedi'i amlinellu yn y Cylch Gorchwyl;</li> <li>▪ Paratoi ar gyfer cyfarfodydd, cyfrannu at drafodaethau ar eitemau a chefnogi/herio lle bo angen;</li> <li>▪ Gweithio ar y cyd fel rhan o'r Bwrdd Rhaglen i ddatrys materion yn ymwneud â'r rhaglen, dod dros rhwystrau, sicrhau'r effaith fwyaf a sicrhau bod buddion yn cael eu gwireddu;</li> <li>▪ Gweithredu fel lladmeryddion i'r Rhaglen.</li> </ul>   |
| <b>Cyfarwyddwr Rhaglen (Uwch Berchennog Cyfrifol y Portffolio)</b> | <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am gyflawni'r rhaglen a'i phrosiectau;</li> <li>▪ Sicrhau bod amcanion a buddion y rhaglen yn cyd-fynd yn strategol â'r strategaethau perthnasol a'r Weledigaeth Twf ehangach;</li> <li>▪ Sicrhau bod y rhaglen a'r prosiectau yn ddarostyngedig i brosesau adolygu a sicrwydd ar y camau priodol;</li> <li>▪ Rheoli adnoddau'r Swyddfa Rhaglen i gefnogi'r cyflawni.</li> </ul>  |
| <b>Uwch Berchennog Cyfrifol y Rhaglen</b>                          | <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Cadeirio a darparu arweiniad strategol i'r Bwrdd Rhaglen - cytuno ar agendâu a'r blaen raglen waith gyda'r Rheolwr Rhaglen;</li> <li>▪ Sicrhau bod y Bwrdd Rhaglen yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni'r buddion a'r deilliannau sydd wedi'u hamlinellu yn Achos Busnes y Rhaglen;</li> <li>▪ Bod yn lladmerydd ar ran y rhaglen, gan sicrhau bod y Bwrdd Rhaglen yn deall y weledigaeth a'r deilliannau'n glir.</li> <li>▪ Sicrhau bod y prosiectau o fewn y rhaglen yn cyd-fynd yn strategol;</li> <li>▪ Darparu cefnogaeth i'r Rheolwr Rhaglen i reoli risgiau a datrys materion;</li> <li>▪ Gweithredu fel cyswllt rhwng y Bwrdd Rhaglen a'r Bwrdd Portffolio.</li> </ul>   |
| <b>Dirprwy Uwch Berchennog Cyfrifol</b>                            | <p>I'w benodi gan yr Uwch Berchennog Cyfrifol o blith Cynrychiolwyr y Partneriaid i:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Ddirprwyo ar ran yr Uwch Berchennog Cyfrifol yn ei absenoldeb.</li> <li>▪ Cefnogi'r Uwch Berchennog Cyfrifol i gyflawni ar ei gyfrifoldebau.</li> </ul>   |
| <b>Rheolwr y Rhaglen</b>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Cynllunio'r rhaglen, gan wneud argymhellion i'r Bwrdd Rhaglen;</li> <li>▪ Rheoli a monitro Cynllun Rhaglen ar gyfer y Bwrdd Rhaglen er mwyn olrhain, rheoli a chyflawni deilliannau a buddion y rhaglen;</li> <li>▪ Paratoi adroddiadau perfformiad misol;</li> <li>▪ Bod yn gyfrifol am sicrwydd y rhaglen a'r prosiect, gan gynnwys sicrwydd allanol (e.e. Adolygiadau Pyrth);</li> <li>▪ Rheoli'r dibyniaethau a'r rhyngwynebau rhwng prosiectau.</li> <li>▪ Cynnal Cofrestrau Risgiau a Materion y Rhaglen a rheoli'r risgiau a'r materion er mwyn cael deilliannau llwyddiannus;</li> <li>▪ Cychwyn gweithredoedd ychwanegol os caiff diffygion yn y rhaglen eu hadnabod;</li> <li>▪ Sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflawni i'r safonau perthnasol fel sydd wedi'i amlinellu yn Achos Busnes y Rhaglen.</li> </ul> |
| <b>Aelod Arweiniol</b>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Cynrychioli Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru;</li> <li>▪ Gweithredu fel cyswllt rhwng y Bwrdd Rhaglen a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru;</li> <li>▪ Cefnogi'r Uwch Berchennog Cyfrifol a'r Rheolwr Rhaglen i sicrhau bod y Bwrdd Rhaglen yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni buddion a deilliannau'r rhaglen.</li> </ul>   |
| <b>Cynrychiolwyr y Partneriaid</b>                                 | <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Cynrychioli eu sefydliad partner a gweithredu fel cyswllt rhwng y sefydliad partner a'r Bwrdd Rhaglen;</li> <li>▪ Darparu arbenigedd/gwybodaeth berthnasol neu dechnegol;</li> <li>▪ Darparu ffocws clir ar wireddu buddion;</li> <li>▪ Ymgymryd ag unrhyw weithredoedd fel y cytunir yn y Bwrdd Rhaglen.</li> </ul>   |

**[Enw'r Rhaglen]**

**Bwrdd Rhaglen**

**Rhaglen**

**[Nodwch y Dyddiad]**

| <b>Eitem</b>                                     | <b>Perchennog</b>        | <b>Amser</b>  |
|--|--------------------------|---------------|
| <b>1.</b> Ymddiheuriadau                         | Uwch Berchennog Cyfrifol | 0- 5 munud    |
| <b>2.</b> Camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf | Uwch Berchennog Cyfrifol | 5-15 munud    |
| <b>3.</b> Diweddariad gan y Swyddfa Rhaglen      | Rheolwr y Rhaglen        | 15-25 munud   |
| <b>4.</b> Dashfwrdd y Rhaglen                    | Rheolwr y Rhaglen        | 25-50 munud   |
| <b>5.</b> Risgiau a Materion                     | Rheolwr y Rhaglen        | 50-60 munud   |
| <b>6.</b> Adroddiad 1                            | Awdur yr Adroddiad       | 60-75 munud   |
| <b>7.</b> Adroddiad 2                            | Awdur yr Adroddiad       | 75-90 munud   |
| <b>8.</b> Adroddiad 3                            | Awdur yr Adroddiad       | 90-105 munud  |
| <b>9.</b> Blaen Gynllun                          | Rheolwr y Rhaglen        | 105-115 munud |
| <b>10.</b> Unrhyw Fater Arall                    | Uwch Berchennog Cyfrifol | 115-120 munud |

**Atodiad 3 – Cynnig ar gyfer penodi Uwch Berchennog Cyfrifol a Dirprwy Uwch Berchennog Cyfrifol ar gyfer y rhaglenni**

Mae'r tabl isod yn dangos y cynigion ar gyfer penodi Uwch Berchennog Cyfrifol ac Dirprwy Uwch Berchennog Cyfrifol i'r pum bwrdd rhaglen.

|   | <b>Digidol</b> | <b>Ynni Carbon Isel</b> | <b>Tir ac Eiddo</b> | <b>Gweithgynhyrchu Uwch</b> | <b>Diwydiannau ar y tir a thwristiaeth</b> |
|---|----------------|-------------------------|---------------------|-----------------------------|--|
| <b>Uwch Berchennog Cyfrifol</b>         | Steve Bayley   | Dylan Williams          | Andy Farrow         | Ashley Rogers               | Jane Richardson                            |
| <b>Dirprwy Uwch Berchennog Cyfrifol</b> | Ashley Rogers  | Andy Farrow             | Graham Boase        | Paul Bevan                  | Sioned Williams                            |



---

## ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

12 Mehefin, 2020

---

**TEITL:** Cytundeb Llywodraethu 2

**AWDUR:** Iwan G. D. Evans, Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya

---

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno Cynllun GA2 wedi'i ddiweddarau i'r Bwrdd ac adrodd ar ddeilliannau'r Gweithdy Llywodraethu.

### 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cymeradwyo'r adroddiad.

2.2. Cymeradwyo'r Cynllun Prosiect Cytundeb Llywodraethu 2 diwygiedig yn ddarostyngedig i dderbyn diweddariad yn nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

### 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae cytundeb y bartneriaeth danategol a'r fframwaith llywodraethu yn allweddol i gytuno ar Gytundeb Llywodraethu 2 cynhwysfawr ("GA2"). Mae'r adroddiad yn amlinellu deilliannau allweddol y Gweithdy Llywodraethu fel sail ar gyfer symud ymlaen â'r gwaith hwn.

### 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Adroddwyd ar gynllun prosiect arfaethedig GA2 i'r Bwrdd Uchelgais ym mis Mai 2019. Fe wnaeth hyn amlinellu'r camau a ragwelwyd ar gyfer paratoi'r ddogfen fel paratoad i lofnodi'r cynllun twf terfynol. Mae cynllun diwygiedig drafft sy'n adnabod y camau sydd wedi'u cymryd a'r camau gweithredu nesaf wedi'i amgáu gyda'r adroddiad hwn fel **Atodiad 1**. I grynhoi, rydym bellach mewn sefyllfa lle mae'r ddogfen ddrafft a baratowyd gan ein hymgynghorwyr arbenigol, Pinsents, wedi bod allan am sylwadau gan y sefydliadau Partner. Er ein bod wedi derbyn rhai ymatebion, rydym yn dal i aros am rai eraill.

4.2. Mae GA2 yn ddogfen sy'n cyfundrefnu perthynas ac ymrwymiad y partïon yn bennaf, ynghyd â'u cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd ynghyd â sefydlu'r fframwaith llywodraethu cefnogol. Rwyf wedi atodi crynodeb o gynnwys GA2 fel **Atodiad 2** a gellir ei rannu'n fras yn dair elfen:

1. Llywodraethu
2. Perthynas Partneriaid
3. Materion Cyfreithiol a Thechnegol

4.3. Mae'r gwaith hyd yma wedi galluogi datblygu GA2 drafft sy'n cymryd sawl elfen o GA1. Hefyd, mae'n adlewyrchu'r newid allweddol o GA1 i GA2, sef o gefnogi'r cais a'r broses gymeradwyo i fod yn gytundeb ar gyfer cyflawni'r Cynllun Twf a'r Weledigaeth Twf. Gall hefyd ddarparu'r sail ar gyfer Cydweithio pellach ac ehangach yn y dyfodol.

- 4.4. Cynhaliwyd gweithdy aml-ddisgyblaethol ar 14 Chwefror, 2020 i archwilio materion llywodraethu allweddol ynghylch paratoi GA2. Rhoddodd hyn gyfle i adnabod a deall y materion y mae angen cytuno arnynt neu eu datrys rhwng y Partneriaid. Bydd y datrysiadau hyn hefyd yn hysbysu'r gwaith o gwblhau GA2 cytûn. Mae'r isod yn grynodedb o'r Materion Allweddol a adnabuwyd a'r ymatebion posib.

## 5. MATERION ALLWEDDOL

| Cwestiwn / Sylw  | Ymateb Arfaethedig  |
|--|---|
| <p><b>5.1. STRWYTHUR LYWODRAETHOL</b></p> <p>Mae GA1 wedi amlinellu strwythur o is-bwyllgorau posib. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm o bum is-bwyllgor sy'n creu strwythur llywodraethu sylweddol posib sy'n gymesur i rôl gyfredol y Bwrdd Uchelgais. Bydd unrhyw strwythur llywodraethu hefyd yn gorfod cyd-fynd â'r strwythurau Llywodraethu Rhaglenni a Phrosiectau angenrheidiol o amgylch y Cynllun Twf. Mae Is-fwrdd Trafnidiaeth wedi'i sefydlu ond nid oes yr un Is-fwrdd ffurfiol arall wedi'i sefydlu eto. Ystyriwyd bod angen hyblygrwydd ar y Bwrdd Uchelgais i greu strwythur a fydd yn cefnogi ac yn hyrwyddo ei swyddogaethau.</p>   | <p><b>Dylai ffurf llywodraethu'r is-strwythurau fod wedi'i dirprwyo'n llwyr i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd yn GA2</b></p>   |
| <p><b>5.2. AELODAETH Y BWRDD</b></p> <p>Ystyriwyd bod yr aelodaeth gyfredol yn gytbwys ac yn gynhwysol ond mae'n bosib y bydd angen ystyried sut mae grwpiau eraill e.e. y sector gwirfoddol yn rhyngweithio â'r Bwrdd Uchelgais.</p>  | <p><b>Adolygu rheolau gweithdrefn fel rhan o ddatblygu GA2.</b></p>   |
| <p><b>5.3. ATEBOLRWYDD Y BWRDD UCHELGAIS (Partneriaeth)</b></p> <p>A yw'r materion sydd wedi'u cadw'n ôl i'r cyrff Partner y rhai iawn?</p> <p>Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y Materion sydd wedi'u cadw'n ôl i'r Partneriaid yn briodol. Roedd angen diffinio ffiniau a hyblygrwydd ar gyfer y Bwrdd Uchelgais ynghylch penderfyniadau allweddol megis amrywio Rhaglenni a Phrosiectau.</p> <p>Mae'r materion sydd wedi'u cadw'n ôl i'r Partneriaid yn GA1 yn cynnwys yn benodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymeradwyo GA2;</li> <li>• Cymeradwyo a mabwysiadu unrhyw Gynlluniau Busnes;</li> <li>• Cytuno ar unrhyw gynnydd i amlen fforddiadwyedd Parti;</li> <li>• Cymeradwyo unrhyw gynnydd i Gyfraniad y Partïon;</li> <li>• Cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol yn unol â Chymal 11.4 (Cyllideb Flynyddol);</li> </ul> | <p><b>Mae GA2 yn sefydlu'r cysyniad o "Gynllun Busnes Cyffredinol" sy'n Fater a gedwir yn ôl. Byddai ystod y ddirprwyaeth a'r hyblygrwydd ar gyfer y Bwrdd Uchelgais wedi'i diffinio o fewn y ddogfen honno.</b></p> <p><b>Mae angen cadarnhau'r Cynllun Busnes Cyffredinol arfaethedig fel tasg ar gyfer y Rhaglen Waith Gyffredinol gan y bydd yn ddogfen allweddol wrth fwrw ymlaen â'r Cytundeb Twf Terfynol a GA2 ar gyfer penderfyniad.</b></p> |



|  |   |
|--|---|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymeradwyo gwariant ychwanegol y tu hwnt i Gyllideb Flynyddol gymeradwy'r Corff Atebol a gedwir ar ran y Partion fel sydd wedi'i nodi yng Nghymal 11.4 (Cyllideb Flynyddol);</li> <li>• Diwygiadau i delerau'r Cytundeb hwn;</li> <li>• Creu cwmni masnachu awdurdod lleol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.</li> </ul>   |   |
| <p><b>5.4. CRAFFU</b></p> <p>Sut allai craffu rhanbarthol weithio orau? Sut ddylid rheoli pwerau galw i mewn?</p> <p>Roedd y model craffu a ffafriwyd yn seiliedig ar Bwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol rhanbarthol presennol. Fe'u hystyriwyd yn allweddol i'r berthynas a'r cyfathrebu "mainc cefn". Roedd sgôp ar gyfer creu fframwaith a fyddai'n hwyluso craffu effeithiol gan bob corff Partner.</p>  | <p><b>Datblygu fframwaith Craffu Awdurdod Lleol yn seiliedig ar y chwe Phwyllgor Craffu statudol cyfredol.</b></p>                                      |
| <p><b>5.5. BWRDD CYFLAWNI BUSNES</b></p> <p>A yw rôl y Bwrdd Cyflawni Busnes yn eglur? Beth ddylai ei rôl fod yn GA2 ar gyfer cam cyflawni'r Cynllun Twf?</p> <p>Ystyriwyd bod y Bwrdd Cyflawni Busnes yn allweddol i berthynas y sector preifat gyda'r Bwrdd Uchelgais. Mae'r strwythur llywodraethu yn ei le, yn y bôn, ond mae angen datblygu ei rôl a'i statws o fewn prosesau'r Swyddfa Rhaglen a'r Bwrdd Uchelgais yn ystyrlon.</p>  | <p><b>Bydd telerau'r Bwrdd Cyflawni Busnes wedi'u cynnwys yn GA2 ond gyda phŵer wedi'i ddirprwyo i'r Bwrdd Uchelgais i ddiwygio fel sydd angen.</b></p> |
| <p><b>5.6. Y GRŴP GWEITHREDOL</b></p> <p>A yw'r trefniadau cyfredol rhwng y Grŵp Gweithredol a'r Bwrdd Uchelgais yn gweithio i chi e.e. y Grŵp Gweithredol yn gweithredu fel lle i glirio adroddiadau'r Bwrdd? A yw trefniadau cefnogi'r Grŵp Gweithredol yn eglur ac yn gweithio'n dda?</p> <p>Yn gyffredinol, mae'r trefniadau'n ymddangos yn briodol, ond mae angen sicrhau bod GA2 yn adlewyrchu'r ymarfer sydd wedi'i ddatblygu'n gyfredol a'r rhyng-berthynas gyda'r Swyddfa Rhaglen wrth fwrw ymlaen.</p> | <p><b>Dylai'r Grŵp Gweithredol adolygu'r cylch gorchwyl cyfredol gyda'r nod o hysbysu'r gwaith o ddrafftio GA2.</b></p>                                 |
| <p><b>5.7. CYFNOD CLOI I MEWN</b></p> <p>A ydych chi'n fodlon gyda Chyfnod 'Cloi i mewn' tan yr Adolygiad Porth cyntaf, gyda'r angen am 12 mis o rybudd?</p> <p>Derbyniwyd y cysyniad o gyfnod cloi i mewn, ond byddai tynnu'n ôl o'r Bartneriaeth wedi hynny hefyd angen darpariaethau er mwyn gwarchod y Partneriaid rhag y goblygiadau ariannol.</p>  | <p><b>Mae'r GA2 drafft yn seiliedig ar y dull hwn, ond mae angen gwneud gwaith manwl ar sefydlu'r paramedrau a'r atebolrwydd.</b></p>                   |

|  |   |
|--|---|
| <p><b>5.8. GWEITHIO’N EHANGACH YN RHANBARTHOL</b></p> <p>Sut ddylem ni weithio gyda'r 'grwpiau ymgynghorol' a'r 'grwpiau rhanddeiliaid' megis y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a'r Bartneriaeth Twristiaeth?</p>   | <p><b>Mae angen adnabod y cyrff rhanbarthol ac eraill sy'n gyrrff ymgynghorol posib a sut a dan pa amodau y maen nhw'n cefnogi a hysbysu gwaith y Bwrdd Uchelgais.</b></p>  |
| <p><b>5.9. CYLLID</b></p> <p>A yw cyfraniadau blynyddol cyfredol y partneriaid yn ddigonol ac yn gynaliadwy? Gosodwyd y cyfraniadau blynyddol ar y lefel isaf. Os bydd angen eu cynyddu, a fydd angen mecanwaith ariannu arnom e.e. (1) cyfraniadau cyfartal neu (2) cyfraniadau cymesur? Mae hefyd angen ystyried y "Cyfraniad Atodol" a'i statws. Mae'r cyfraniad a'r dosraniad atebolrwydd cyfredol yn seiliedig ar gyfraniadau craidd GA1 sy'n diystyru "Cyfraniad Atodol". Ystyriwyd bod y cyfraniadau cyfredol yn ddigonol ar hyn o bryd ac mae GA1 yn caniatáu ar gyfer uchafswm o 5% o gynnydd blynyddol. Fodd bynnag, mae angen rhoi sylw i'r mater o fynegeo cyfraniadau'r dyfodol.</p> <p>Byddwn angen gwerthusiad o opsiynau ar ddostrannu'r costau benthyca. Beth ddylem ni ei ystyried e.e. rhannu'r risg o fenthyca? Mae nifer o faterion rhyng-gysylltiedig cymhleth o amgylch cyfraniadau i e.e. costau benthyca, cyfrannedd a masnacholi y mae angen eu datblygu. Mae materion ariannol a chyfreithiol i fynd i'r afael â nhw. Yn ogystal, mae materion a fydd yn hysbysu'r gwaith o baratoi GA2, ond bydd hefyd yn berthnasol i Raglenni a Phrosiectau.</p> | <p><b>Mater i'r Swyddogion Cyllid ei adolygu ac adrodd arno yn unol â'r rhaglen waith.</b></p> <p><b>Swyddfa Rhaglen a Swyddogion Cyllid a Chyfreithiol i adolygu ac adrodd ar yr opsiynau yn unol â'r Rhaglen Waith.</b></p> |
| <p><b>5.10. YMGYSYLLTIAD Â RHANDEILIAID</b></p> <p>Mae'r cynnydd tuag at Gytundeb Terfynol y Cynllun Twf a GA2 yn broses gyfochrog sy'n arwain at benderfyniadau gan Sefydliadau Partner. Mae hi'n bwysig y cynhelir cyfathrebu gyda'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau drwy gydol y broses sy'n arwain at Gytundeb Terfynol y Cynllun Twf a GA2. Mae angen dealltwriaeth o lefel yr eglurder/sicrwydd cynharach sydd eu hangen ar rai safbwyntiau yn benodol ynghylch masnacholi er mwyn datblygu'r Achos Busnes.</p>  | <p><b>Mae angen cytuno ar raglen waith sydd wedi'i diweddarau a'i rhoi yn ei lle er mwyn ymdrin â'r llwybrau gwneud penderfyniadau.</b></p>   |

## 6. CASGLIAD

- 6.1. Nod yr adroddiad yw amlygu'r prif faterion a fydd yn ffurfio swmp y gwaith wrth ffurfio GA2. Amlygwyd materion eraill hefyd, a chaiff y rhain sylw fel rhan o ddatblygu GA2.

- Rheoli gwrthdaro buddiannau o fewn llywodraethu rhaglenni a phrosiectau;
- Monitro'r gwaith o Ddatblygu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a'r goblygiadau posib.

## 7. AMSERLEN

7.1. Roedd bwriad i gynnwys yr amserlen drafft i'r Bwrdd ar gyfer y cyfarfod ar yr 20<sup>fed</sup> o Fawrth. Bellach yn dilyn ardrawiad yr argyfwng COVID-19 mae llithriad anorfod wedi bod yn y bwriad ac mae amserlen ddiwygiedig wedi ei atodi ar gyfer cefnogi yr amcan o gael Cytundeb Terfynol mewn lle erbyn Rhagfyr 2020. Yn y cyd-destn yma mae'n briodol nodi fod y amserlen yma yn heriol ac yn mynd i olygu ymrwymiad gan y budd ddeiliaid i'w chyflawni. Yn anroffod mae elfennau sydd yn dal yn destun ail gychwyn er sefydlu amserlen penodol.

## 8. GOBLYGIADAU ARIANNOL

8.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol penodol.

## 9. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

9.1. Mae'r adroddiad yn ymdrin â pharatoi cytundeb llywodraethu cyfreithiol y bydd goblygiadau cyfreithiol iddo. Bydd y rhain yn destun cyngor a mewnbwn arbenigol wrth iddynt gael eu datblygu.

## 10. GOBLYGIADAU STAFFIO

10.1. Dim ar hyn o bryd.

## 11. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

11.1. Dim ar hyn o bryd.

## 12. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD

12.1. Trafodwyd cynnwys yr adroddiad hwn yn y Grŵp Cefnogaeth Weithredol ar 6 Mawrth, 2020.

---

### ATODIADAU:

|                  |   |
|------------------|---|
| <b>Atodiad 1</b> | Amserlen ddiwygiedig ar gyfer paratoi GA2 |
| <b>Atodiad 2</b> | Crynodeb o gynnwys GA2                    |

---

### YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

#### i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:

Awdur yr adroddiad.

#### ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):

"Rwyf wedi cyfrannu at agweddau ariannol yn y Cynllun Prosiect Cytundeb Llywodraethu 2 diwygiedig yma, yn y Gweithdy Llywodraethu ac wedi hynny, ac rwy'n cefnogi'r cynnig i'r Bwrdd gymeradwyo'r Cynllun."

## Amserlen ddiwygiedig ar gyfer paratoi GA2

| Gweithred   | Dyddiad Dechrau                          | Dyddiad Gorffen   | Arweinydd                            | Statws | Sylw   |
|---|--|---|--------------------------------------|--------|--|
| Cynhadledd gychwynnol gyda Pinsents   | 13/05/2019                               | 13/05/2019  | Cyfreithiol                          |        |  |
| Cylchredeg rhestr o Faterion Cychwynnol a Holiadur gyda drafft cychwynnol GA1               | 23/08/2019                               | 14/06/2019  | Cyfreithiol                          |        |  |
| Comisiynu ffrydiau gwaith / arweiniad penodol gan y Grŵp Gweithredol Cyllid a'r Partneriaid | 20 Mai 2019                              | I'w benderfynu fel rhan o ffrwd gwaith o fewn amserlen gytûn yn seiliedig ar y Rhaglen Waith gyffredinol. | Arbenigedd Cyfreithiol a pherthnasol |        |  |
| Adolygu'r ymatebion a pharatoi drafft gweithiol cychwynnol o GA2                            | 17/06/2019                               | 30/06/2019  | Cyfreithiol                          |        |  |
| Adrodd i'r Grŵp Gweithredol / Gweithdy  | 05/07/2019                               | 05/07/2019  | Cyfreithiol                          |        |  |
| Cynnal Gweithdy gyda Pinsents i adolygu'r ymatebion   | 23/10/2019                               | 23/10/2019  |                                      |        |  |
| Paratoi ail ddrafft diwygiedig o GA2  | I'w baratoi a'i ddosbarthu ar 28/11/2020 | Dyddiad cau i dderbyn Ymatebion 07/02/20  | Cyfreithiol                          |        |  |
| Adrodd ar gynnydd i'r Grŵp Gweithredol 6/2/2020   |  | 06/02/2020  | Cyfreithiol                          |        |  |
| Gweithdy Llywodraethu ar Faterion Allweddol   |  | 14/02/2020  |                                      |        |  |
| Adrodd ar gynnydd i'r Bwrdd Uchelgais   |  | <del>20/03/2020</del><br>12/06/2020   | Cyfreithiol                          |        | Adroddiad wedi ei gylchredeg   |
| Cytuno ar sail Cyfraniadau'r Partneriaid ac atebolrwydd ac indemniad cymesur                | 06/03/2020                               | I'w gadarnhau   | Swyddogion Cyllid y Partneriaid      |        | Angen ei weithredu – Ond, mae hwn yn dasg fydd angen gweithio gyda Cyrff Partneriaid unigol i ddod i fodel. Bydd yn ffurfio rhan o GA2 ar gyfer cymeradwyaeth. |
| Adnabod Dewisiadau er mwyn dosbarthu costau benthyca tybiannol er mwyn                      | 06/03/2020                               | I'w gadarnhau   | Swyddfa Rhaglen                      |        | Angen ei weithredu – Ond, mae hwn yn dasg fydd angen gweithio gyda Cyrff Partneriaid unigol i ddod i fodel. Bydd yn ffurfio rhan o                             |

|   |   |   |  |  |   |
|---|---|---|--|--|---|
| <b>ymdrin â llif arian negyddol</b>   |   |   |  |  | GA2 ar gyfer cymeradwyaeth.   |
| <b>Adnabod Dewisiadau Masnacholi ar gyfer Rhaglenni a Phrosiectau</b>                                 | 06/03/2020  | I'w gadarnhau   |  |  | Adroddiad ar wahân i'r Bwrdd  |
| <b>Cynllun Busnes Cyffredinol</b>   | 06/03/2020  | Caiff hyn ei benderfynu yn sgil datblygiad y prosiect ehangach a pha mor aeddfed yw'r wybodaeth a chonsensws ar elfennau allweddol a fydd yn bwydo i mewn i'r ddogfen | Swyddfa Rhaglen                          |  | Angen ei weithredu – Ond, mae hwn yn dasg fydd angen gweithio gyda Cyrff Partneriaid unigol i ddod i fodel. Bydd yn ffurfio rhan o GA2 ar gyfer cymeradwyaeth.  |
| <b>Model Drafft ar gyfer Craffu</b>   | 20/03/2020  | 31/07/2020  | Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratiaeth |  | Gellir paratoi hwn mewn tandem a'r uchod. Mae'r model a ffafrir sydd wedi ei sefydlu o amgylch Pwyllgorau Craffu Cyffredol yn dal angen cytundeb y Cynghorau unigol. Bydd yn ffurfio rhan o GA2 ar gyfer cymeradwyaeth. |
| <b>Adroddiad i brosesau democrataidd a Phartneriaid ar fodelau arfaethedig a dogfennaeth terfynol</b> |   | Hydref / Tachwedd 2020  | Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratiaeth |  | Dylai fod Pwyllgorau Craffu yn weithredol erbyn hyn.  |
| <b>Sicrhau cytundeb ar y drafft terfynol</b>  | Caiff hyn ei benderfynu yn sgil datblygiad y prosiect ehangach a pha mor aeddfed yw'r wybodaeth a chonsensws ar elfennau allweddol a fydd yn bwydo i mewn i'r cytundeb. | Tachwedd 2020   | Cyfreithiol                              |  | Canlyniad yr uchod.   |
| <b>Paratoi drafft terfynol ar gyfer cadarnhad a chymeradwyaeth.</b>                                   | Bydd angen i hyn fod yn unol â'r Rhaglen Waith gyffredinol  | Tachwedd/Rhagfyr 2020   | Cyfreithiol                              |  | Dylai fod yn "fformaliti" i yn sgil cam blaenorol   |
| <b>Cwblhau'r Cytundeb</b>   | Yn gyfochrog â'r broses gymeradwyo ar gyfer y Cynllun Twf.  | Rhagfyr 2020  | Cyfreithiol                              |  | Dylai fod yn "fformaliti" yn sgil cam blaenorol   |

## Trosolwg o GA2

| Na | Pennawd GA2                                  |   |
|----|--|---|
| 1  | DIFFINIADAU A DEHONGLIAD                     |   |
| 2  | CYCHWYN, OES A THERFYNU                      |   |
| 3  | EGWYDDORION AC AMCANION ALLWEDDOL            | ATODLEN 1 - POLISI DIRPRWYO                                       |
| 4  | LLYWODRAETHU                                 | ATODLEN 2 - CYLCH GORCHWYL  |
| 5  | GWNEUD PENDERFYNIADAU                        | RHAN 1 - CYLCH GORCHWYL Y CYD-BWYLLGOR                            |
| 6  | YR AWDURDOD LLETYA                           | RHAN 2 - CYLCH GORCHWYL Y TÎM GWEITHREDOL / GRŴP GWEITHREDOL      |
| 7  | DYLETSWYDDAU'R AWDURDOD LLETYA               | RHAN 3 - CYLCH GORCHWYL Y SWYDDFA RHAGLEN                         |
| 8  | DYLETSWYDDAU'R PARTÏON ERAILL                | RHAN 4 - CYLCH GORCHWYL YR IS-BWYLLGORAU                          |
| 9  | CYD-BWYLLGOR                                 | ATODLEN 6 - COD YMDDYGIAD AR GYFER YMGYNGHORWYR Y BWRDD UCHELGAIS |
| 10 | TÎM GWEITHREDOL / GRŴP GWEITHREDOL           |   |
| 11 | Y SWYDDFA RHAGLEN                            |   |
| 12 | CRAFFU                                       |   |
| 13 | CYNLLUN BUSNES                               | ATODLEN 4 - PENAWDAU GWARIANT                                     |
| 14 | Y BROSES GYMERADWYO                          | ATODLEN 5 - CYFNODAU CYFRIFYDDU                                   |
| 15 | YMRWYMIAD Y PARTÏON A CHYFRANIADAU           | ATODLEN 7 - ADRODDIAD CYFRIFOLDEBAU                               |
| 16 | TYNNU'R CYNLLUN TWF I LAWR                   |   |
| 17 | LLINIARU                                     | ATODLEN 8 - Y WELEDIGAETH TWF                                     |
| 18 | CYFRIFOLDEBAU'R PARTÏON                      | ATODLEN 9 - CYNLLUN GWEITHREDU                                    |
| 19 | TYNNU'N ÔL                                   | ATODLEN 10 - CYNLLUN BUSNES CYFFREDINOL                           |
| 20 | CANLYNIADAU'R TERFYNIAD                      | ATODLEN 11 - CYNLLUNIAU BUSNES CYMERADWY                          |
|    |  | ATODLEN 12 - CYNLLUN TWF  |
| 21 | EIDDO DEALLUSOL                              |   |
| 22 | CYFRINACHEDD A CHYHOEDDIADAU                 |   |
| 23 | CONTRACTAU (HAWLIAU TRYDYDD PARTI)           |   |
| 24 | DATRYS ANGHYDFOD                             |   |
| 25 | DIOGELU DATA                                 |   |
| 26 | RHYDDID GWYBODAETH A GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL |   |
| 27 | RHYBUDDION                                   |   |
| 28 | CYFRAITH LYWODRAETHOL                        |   |
| 29 | ASEINIO                                      |   |
| 30 | ILDIO HAWL                                   |   |

|    |                        |  |
|----|------------------------|--|
| 31 | Y CYTUNDEB CYFAN       |  |
| 32 | GWRTHRANNAU            |  |
| 33 | PERTHYNAS Y PARTÍON    |  |
| 34 | CYFRIFOLDEBAU STATUDOL |  |
|    |                        |  |

---

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU****12 Mehefin, 2020**

---

**TEITL:** *Modelau Llywodraethu a Masnachol***AWDUR:** *Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau*

---

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cynghori Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar y modelau ariannu a masnachol sydd ar gael drwy Gynllun Twf Gogledd Cymru a'r materion y bydd angen eu hystyried.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

- 2.1. Rhoi sylwadau ar y papur a nodi y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud gan y Swyddfa Rhaglen, y Grŵp Cefnogaeth Weithredol ac Swyddogion Cyllid partneriaid ar sut gellid defnyddio modelau masnachol ac ariannu gyda rhaglenni a phrosiectau, ac y bydd adroddiad pellach ar y mater hwn yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru maes o law.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

- 3.1. Bwrw ymlaen â gwaith ar fodolau masnachol ac ariannu fel rhan o'r pecyn o waith sydd ei angen i sicrhau 'Cynllun Terfynol' gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

**4. CEFNIDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

- 4.1. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu achosion busnes y rhaglen, mae angen cadarnhau pa fodolau masnachol ac ariannu y mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn dymuno'u defnyddio drwy'r Cynllun Twf. Bydd hyn yn hysbysu achosion Masnachol ac Ariannol pob achos busnes rhaglen a bydd hefyd yn siapiau achosion busnes y prosiectau wedi hynny.
- 4.2. Er bod ymchwil wedi'i wneud i fodolau masnachol ac ariannu yn flaenorol, nid oes yr un penderfyniad wedi'i wneud ac mae angen sefydlu sut byddai unrhyw fodolau yn cael eu defnyddio gyda'r prosiectau.
- 4.3. Ar hyn o bryd, mae bwlch o £40miliwn yn y cyllid sydd wedi'i geisio gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru drwy'r cynllun twf. Mae modelau masnachol ac ariannu yn cyflwyno cyfle i fynd i'r afael â'r bwlch hwn drwy ailgylchu arian yn ôl i'r Cynllun Twf ar gyfer buddsoddiadau yn y dyfodol.
- 4.4. Mewn termau syml, mae tri model masnachol/ariannol posib ar gael ar gyfer cyllid y Cynllun Twf - grant, benthyciad neu fuddsoddiad neu gyfuniad:
- **Grant** - Darparu cyllid y cynllun twf fel grant na fyddai'n gweld unrhyw adenillion ariannol ar y buddsoddiad.



- **Benthyciad** - Gellid darparu cyllid y Cynllun Twf ar ffurf benthyciad neu ran-fenthyciad. Er enghraifft, fe wnaeth Rhanbarth Dinas Caerdydd gyhoeddi cynlluniau i datblygu Cronfa Eiddo Strategol yn ddiweddar, hyd at £50miliwn o bosib. Byddai hon yn gronfa fytholwyrdd, gyda thaliadau ar ffurf benthyciadau y mae'n rhaid eu had-dalu'n llawn, fel y gall barhau i droi'r buddsoddiadau a ddychwelir yn ôl i gynlluniau newydd yn y dyfodol.
- **Buddsoddiad** - Gellid darparu cyllid y Cynllun Twf fel buddsoddiad naill ai mewn asedau, ecwiti, IP neu o bosib drwy drefniant rhannu elw cytundebol. Bydd y cyfnod adenillion ar fuddsoddiad yn gwahaniaethu'n sylweddol ar draws y prosiectau. Er enghraifft, gellid cyflawni adenillion ar fuddsoddiad o ddatblygiad tai o fewn cyfnod o bum mlynedd ond gall buddsoddiad mewn IP gymryd llawer yn hwy i gyflawni adenillion.

4.5. Wrth ymchwilio i fodelau masnachol ac ariannu, bydd angen ystyried dosrannu'r costau benthycia ar draws y bartneriaeth hefyd, fel y trafodwyd yn flaenorol yn y Gweithdy Llywodraethu ar 14 Chwefror, 2020.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Dim ar hyn o bryd.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Dim ar hyn o bryd.

## 7. GOBLYGIADAU STAFFIO

7.1. Dim ar hyn o bryd.

## 8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

8.1. Dim ar hyn o bryd.

## 9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIUYD

9.1. Trafodwyd cynnwys yr adroddiad hwn yn y Grŵp Cefnogaeth Weithredol ar 3 Mehefin, 2020.

---

### ATODIADAU:

|                  |                              |
|------------------|------------------------------|
| <b>Atodiad 1</b> | Modelau Masnachol ac Ariannu |
|------------------|------------------------------|

---

### YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

#### i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:

“Mae’r adroddiad yn rhoi tros olwg o agwedd bwysig o ddatblygu y Rhaglenni a Prosiectau o fewn y Cynllun Twf. Fel y nodir mae’r ffrwd gwaith yma angen ystyriaeth manwl ac arbenigol er sefydlu opsiynau ar y ffordd ymlaen.”

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

“Fel y nodir yn rhan 4.5 yr adroddiad, fe wnaeth y Gweithdy Llywodraethu ar 14 Chwefror edrych ar ddosrannu’r costau benthycia ar draws y bartneriaeth, tra bydd ystyriaethau ynghylch modelau masnachol ac ariannu bellach hefyd yn ystyried y potensial i ddarparu cyllid y cynllun twf ar ffurf benthyciad, neu ran-fenthyciad, ynghyd â’r opsiynau grant a buddsoddiad a ragwelwyd yn flaenorol.

Fel yr awgrymir yn rhan 4.2 yr adroddiad, gellid defnyddio modelau masnachol ac ariannu amrywiol ar gyfer y gwahanol brosiectau. Yn amlwg, bydd angen i’r gwaith ymchwil i ddatrysiaidau i brosiectau unigol fod yn sensitif er mwyn cyflawni disgwyliadau’r partneriaid, a rhaid egluro hyn yn yr Achosion Busnes.

Fodd bynnag, rwy’n croesawu’r parodrwydd diragfarn i ystyried syniadau newydd megis benthyciadau, neu ran-fenthyciadau, a allai gynorthwyo’r Bwrdd Uchelgais i ymddwyn yn gydwybodol wrth fynd i’r afael â’r bwch ariannu o £40miliwn a grybwyllir yn rhan 4.4 yr adroddiad.”

## Modelau Buddsoddiad Masnachol Posib

Grant

Benthyciad


Buddsoddiad

Dim Adenillion ar y  
Buddsoddiad

Dychwelyd y cyllid ac  
elw posib hefyd

Mewn asedau,  
ecwiti, IP neu  
drefniadau rhannu  
elw

Cymysg – cyfuniad o'r uchod



north wales economic ambition board  
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

## ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

12/06/2020

---

**Teitl:** Adroddiad Alldro a Ffurflen Flynyddol 2019/20

**Awdur:** Dafydd L. Edwards, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya

---

### 1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu sefyllfa alldro terfynol 2019/20 i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a chael cymeradwyaeth i'r Ffurflen Flynyddol Swyddogol ar gyfer 2019/20.

### 2. Y Penderfyniad a Geisir

2.1 Nodi a derbyn Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2019/20 (Atodiad 1).

2.2 Cymeradwyo Ffurflen Flynyddol Swyddogol y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2019/20 (amodol ar Archwiliad Allanol), yn unol â'r amserlen statudol, sef 15 Mehefin 2020. Mae wedi'i gwblhau a'i ardystio'n briodol gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol, sef Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd fel Swyddog Cyllid Statudol y Cyd-bwyllgor (Atodiad 2).

### 3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad

3.1 Rhoi gwybod i'r Cyd-bwyllgor am ei sefyllfa ariannol ar gyfer 2019/20 a chydymffurfio â'r gofynion statudol yn nhermau cwblhau'r Adroddiad Flynyddol.

#### **4. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

- 4.1 Bydd y cyfrifon a'r adroddiad yn destun archwiliad gan Deloitte, archwilydd allanol Cyngor Gwynedd a benodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Pe byddai angen unrhyw newidiadau, caiff fersiwn diwygiedig ei gyflwyno i gyfarfod y Cyd-bwyllgor ar 31 Gorffennaf 2020.
- 4.2 Yn dilyn yr archwiliad ac yn dilyn unrhyw newidiadau angenrheidiol, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio'r adroddiad cyn 15 Medi 2020.

#### **5. Gwariant ac incwm yn 2019/20**

- 5.1 Mae Atodiad 1 yn dangos y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw ar gyfer 2019/20, ac mae hyn yn cyfateb â'r ffigyrau yn y Ffurflen Flynyddol a ddangosir yn Atodiad 2.

#### Swyddfa Rheoli Rhaglen

- 5.2 Y tanwariant terfynol dan y pennawd hwn yw £143,486. Mae cynnydd yn y tanwariant ers yr adolygiad trydydd chwarter, yn sgil y ffaith nad yw'r gwariant ar baratoi achosion busnes y rhaglen yn dechrau tan 2020/21.

#### Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol

- 5.3 Y tanwariant terfynol dan y pennawd hwn yw £32,804 o ganlyniad i ostyngiad yn y gwariant ar wasanaethau cefnogol y Corff Atebol (yr awdurdod lletya).

#### Cyd-bwyllgor

- 5.4 Y tanwariant terfynol dan y pennawd hwn yw £16,703, yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad yn y gwariant ar y Ffi Archwilio Allanol a'r Bwrdd Cyflawni Busnes.

#### Cyfraniadau Ariannu

- 5.5 Mae llythyr cymeradwyo y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF) Blaenoriaeth 5 wedi'i dderbyn ym mis Mai 2020. Gan nad oedd wedi'i dderbyn cyn 31 Mawrth 2020, nid yw incwm y grant ESF yn cael ei ddangos yng nghyfrifon 2019/20. Felly, caiff ei hawlio'n ôl-weithredol yn ystod 2020/21 a'i ôl-ddyddio i 1 Gorffennaf 2018.

- 5.6 Roedd y sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2020 yn dangos tanwariant o £161,316 ac mae hwn wedi'i drosglwyddo i gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i roi gweddill o £497,529 a fydd ar gael i ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.

## **6. Goblygiadau Cyfreithiol**

- 6.1 Noda Adran 12 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 bod Cyd-bwyllgor o ddau neu fwy o awdurdodau (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 y Ddeddf yn mynnu bod y cyrff hyn yn cynnal cyfrifon sy'n ddarostyngedig i archwiliad gan archwilydd allanol a gymeradwyir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 6.2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn mynnu bod yr holl Gyd-bwyllgorau yn paratoi cyfrifon diwedd blwyddyn. Os yw'r trosiant yn llai na £2.5m, pennir bod y Cyd-bwyllgor yn "gyd-bwyllgor bach" a rhaid paratoi ffurflen flynyddol yn unol ag arferion priodol fel yr amodir drwy ddeddfwriaeth.

## **7. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd**

- 7.1 Adroddwyd sefyllfa'r tanwariant i'r Grŵp Gweithredol ar 15 Mai 2020.

## **8. Atodiadau**

Atodiad 1 - Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw ar gyfer 2019/20.

Atodiad 2 – Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 (amodol ar Archwiliad Allanol), ond sy'n cynnwys sylwadau Archwilio Mewnol.

### **YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

- i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**  
Dim sylwadau i'w hychwanegu ynglŷn a priodoldeb.
- ii. Swyddog Cyllid Statudol - Corff Atebol:**  
Awdur yr adroddiad hwn.

| Gwariant   | Cyllideb<br>Wreiddiol | Trosglwyddiadau  | Cyllideb<br>Ddiwygiedig | Sefyllfa<br>Terfynol<br>2019/20 | Gorwariant /<br>(Tanwariant) |
|--|-----------------------|------------------|-------------------------|---------------------------------|------------------------------|
|  | (£)                   | (£)              | (£)                     | (£)                             | (£)                          |
| <b>Swyddfa Rheoli Rhaglen</b>                        |                       |                  |                         |                                 |                              |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal)       | 246,480               | (61,580)         | 184,900                 | 69,450                          | (115,450)                    |
| Secondiad Staff                                      | 0                     | 0                | 0                       | 19,673                          | 19,673                       |
| Ad-daliad Rheoli/Datblygu Rhaglenni                  | 0                     | 0                | 0                       | 62,484                          | 62,484                       |
| Hysbysebu ac Asesu Ymgeiswyr                         | 0                     | 0                | 0                       | 49,729                          | 49,729                       |
| Teithio a Chynhaliaeth                               | 10,000                | 0                | 10,000                  | 2,614                           | (7,386)                      |
| Ymgysylltu a Chyfarfodydd                            | 11,620                | 0                | 11,620                  | 8,023                           | (3,597)                      |
| Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus                 | 45,000                | 0                | 45,000                  | 15,050                          | (29,950)                     |
| Ffi Archwilio Perfformiad                            | 12,500                | 0                | 12,500                  | 0                               | (12,500)                     |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau                           | 10,000                | 0                | 10,000                  | 13,195                          | 3,195                        |
| Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol                           | 43,480                | 0                | 43,480                  | 42,282                          | (1,198)                      |
| Eiddo  | 5,000                 | 0                | 5,000                   | 3,570                           | (1,430)                      |
| Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau            | 319,800               | (91,040)         | 228,760                 | 75,113                          | (153,647)                    |
| Trafnidiaeth   |                       |                  | 0                       | 46,591                          | 46,591                       |
| <b>Cyfanswm Swyddfa Rheoli Rhaglen</b>               | <b>703,880</b>        | <b>(152,620)</b> | <b>551,260</b>          | <b>407,774</b>                  | <b>(143,486)</b>             |
| <b>Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol</b>          |                       |                  |                         |                                 |                              |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid                       | 105,710               | (22,720)         | 82,990                  | 56,950                          | (26,040)                     |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro)           | 16,000                | 0                | 16,000                  | 13,180                          | (2,820)                      |
| Cefnogaeth Gorfforaethol                             | 29,400                | 0                | 29,400                  | 25,456                          | (3,944)                      |
| Technoleg Gwybodaeth                                 | 2,760                 | 0                | 2,760                   | 2,760                           | 0                            |
| <b>Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol</b> | <b>153,870</b>        | <b>(22,720)</b>  | <b>131,150</b>          | <b>98,346</b>                   | <b>(32,804)</b>              |
| <b>Cyd-bwyllgor</b>                                  |                       |                  |                         |                                 |                              |
| Cytundeb Llywodraethu 2 - Cyfreithiol                | 20,000                | 0                | 20,000                  | 18,262                          | (1,738)                      |
| Cytundeb Llywodraethu 1 - Cyfreithiol                | 0                     | 0                | 0                       | 1,634                           | 1,634                        |
| Ffi Archwilio Allanol                                | 12,500                | 0                | 12,500                  | 1,500                           | (11,000)                     |
| Bwrdd Cyflawni Busnes                                | 0                     | 10,000           | 10,000                  | 4,401                           | (5,599)                      |
| <b>Cyfanswm Cyd-bwyllgor</b>                         | <b>32,500</b>         | <b>10,000</b>    | <b>42,500</b>           | <b>25,797</b>                   | <b>(16,703)</b>              |
| <b>Cyfanswm Gwariant</b>                             | <b>890,250</b>        | <b>(165,340)</b> | <b>724,910</b>          | <b>531,917</b>                  | <b>(192,993)</b>             |

| Incwm | Cyllideb Wreiddiol | Trosglwyddiadau | Cyllideb Ddiwygiedig | Sefyllfa Terfynol 2019/20 | Gorwariant / (Tanwariant) |
|-------|--------------------|-----------------|----------------------|---------------------------|---------------------------|
|       | (£)                | (£)             | (£)                  | (£)                       | (£)                       |

#### Cyfraniadau Ariannu

##### Cyfraniadau Partneriaid - GA1

|                                  |          |   |          |          |   |
|----------------------------------|----------|---|----------|----------|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy   | (50,000) | 0 | (50,000) | (50,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych              | (50,000) | 0 | (50,000) | (50,000) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint              | (50,000) | 0 | (50,000) | (50,000) | 0 |
| Cyngor Gwynedd                   | (50,000) | 0 | (50,000) | (50,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn              | (50,000) | 0 | (50,000) | (50,000) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (50,000) | 0 | (50,000) | (50,000) | 0 |
| Prifysgol Bangor                 | (25,000) | 0 | (25,000) | (25,000) | 0 |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam        | (25,000) | 0 | (25,000) | (25,000) | 0 |
| Coleg Cambria                    | (25,000) | 0 | (25,000) | (25,000) | 0 |
| Grŵp Llandrillo Menai            | (25,000) | 0 | (25,000) | (25,000) | 0 |

##### Cyfraniadau Partneriaid - Eraill

|                                  |          |   |          |          |   |
|----------------------------------|----------|---|----------|----------|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy   | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych              | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint              | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Gwynedd                   | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn              | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 |

|                               |           |         |   |   |   |
|-------------------------------|-----------|---------|---|---|---|
| Cyfalafu Costau'r Prosiectau  | (250,250) | 250,250 | 0 | 0 | 0 |
| Sector Preifat (yn y dyfodol) | 0         | 0       | 0 | 0 | 0 |

|  |   |          |          |          |          |
|--|---|----------|----------|----------|----------|
| Grant Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru)               | 0 | (34,100) | (34,100) | (46,591) | (12,491) |
| Llog ar y gronfa wrth gefn                             |   |          |          | (6,642)  | (6,642)  |
| Cyllid Blaenoriaeth 5 y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd | 0 | (50,810) | (50,810) | 0        | 50,810   |

|                       |                  |                |                  |                  |               |
|-----------------------|------------------|----------------|------------------|------------------|---------------|
| <b>Cyfanswm Incwm</b> | <b>(890,250)</b> | <b>165,340</b> | <b>(724,910)</b> | <b>(693,233)</b> | <b>31,677</b> |
|-----------------------|------------------|----------------|------------------|------------------|---------------|

##### Sefyllfa Gorwariant / (Tanwariant) cyn y

|   |          |          |          |                  |                  |
|---|----------|----------|----------|------------------|------------------|
| <b>trosglwyddiad i'r Gronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi</b> | <b>0</b> | <b>0</b> | <b>0</b> | <b>(161,316)</b> | <b>(161,316)</b> |
|---|----------|----------|----------|------------------|------------------|

|                                    |   |   |   |           |         |
|------------------------------------|---|---|---|-----------|---------|
| Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi | 0 | 0 | 0 | 161,316 * | 161,316 |
|------------------------------------|---|---|---|-----------|---------|

|                                      |          |          |          |          |          |
|--------------------------------------|----------|----------|----------|----------|----------|
| <b>Gorwariant / (Tanwariant) Net</b> | <b>0</b> | <b>0</b> | <b>0</b> | <b>0</b> | <b>0</b> |
|--------------------------------------|----------|----------|----------|----------|----------|

\* Bydd hyn yn rhoi balans o £497,529 yn y gronfa wrth gefn i'w gario drosodd i 2020/21.




## Cyrrff llywodraeth leol perthnasol llai yng Nghymru Ffurflen Flynyddol i'r Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2020

### Y BROSES O RAN CYFRIFON AC ARCHWILIO

Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff llywodraeth leol yng Nghymru lunio eu cyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth a sicrhau bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio'r cyfrifon hynny. Mae Rheoliad 14 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi bod yn rhaid i gyrrff llywodraeth leol llai h.y. y rhai hynny ag incwm a gwariant sy'n llai na £2.5 miliwn baratoi eu cyfrifon yn unol â'r arferion priodol.

Nodir yr arferion priodol i is gyd-bwyllgorau sydd ag incwm a gwariant yn llai na £2.5 miliwn yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru/Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol 'Governance and accountability for local councils in Wales – A Practitioners' Guide' (y Canllaw i Ymarferwyr). Mae'r Canllaw i Ymarferwyr yn ei gwneud yn ofynnol iddynt baratoi eu cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol. Mae'r ffurflen flynyddol hon yn bodloni gofynion y Canllaw i Ymarferwyr.

Mae'r cyfrifon a'r trefniadau archwilio yn dilyn y broses a nodir isod.



**Darllenwch y canllawiau ar gwblhau'r Ffurflen Flynyddol hon a chwblhewch bob adran a amlygir mewn coch gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol.**

### CYMERADWYO'R FFURFLEN FLYNYDDOL

**Mae dau flwch i'w hardystio a'u cymeradwyo gan y corff. Mae'r ail flwch yn ofynnol dim ond os oes angen diwygio'r ffurflen flynyddol o ganlyniad i'r archwiliad. Dylech lenwi'r blwch uchaf yn unig cyn anfon y ffurflen at yr archwilydd.**

**Mae'n rhaid i'r pwyllgor gymeradwyo'r ffurflen flynyddol CYN i'r cyfrifon a'r dogfennau ategol fod ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus o dan adran 30 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.**

**Yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fydd yn cwblhau Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru. NI CHAIFF y Clerc/Swyddog Ariannol Cyfrifol, y Cadeirydd na'r archwilydd mewnol eu cwblhau.**

Caiff ffurflenni a archwiliwyd ac a ardystiwyd eu dychwelyd i'r corff at ddibenion cyhoeddi ac arddangos y datganiadau cyfrifyddu, y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol a thystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Datganiadau cyfrifyddu 2019-20 ar gyfer:

Enw'r corff:

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

|   | Y flwyddyn a ddaeth i ben |                    | Nodiadau a chanllawiau i'r sawl sy'n llunio'r cyfrifon  |
|---|---------------------------|--------------------|---|
|   | 31 Mawrth 2019 (£)        | 31 Mawrth 2020 (£) | Dylech dalgrynnu'r holl ffigurau i'r £ agosaf. Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag na chofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigur fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.     |
| <b>Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau</b> |                           |                    |   |
| 1. Balansau a ddygwyd ymlaen                                | 0                         | 336,213            | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â Llinell 7 y flwyddyn flaenorol.   |
| 2. (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll                       | 391,370                   | 640,000            | Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff.   |
| 3. (+) Cyfanswm derbyniadau eraill                          | 0                         | 53,233             | Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod llai'r symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a referniw.  |
| 4. (-) Costau staff   | 0                         | -89,123            | Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a threuliau cysylltiedig, e.e. costau terfynu. |
| 5. (-) Llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf             | 0                         | 0                  | Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl).  |
| 6. (-) Cyfanswm taliadau eraill                             | -55,157                   | -442,794           | Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod llai costau staff (Llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (Llinell 5).   |
| 7. (=) Balansau a gariwyd ymlaen                            | 336,213                   | 497,529            | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) - (4+5+6).   |
| <b>Datganiad o falansau</b>                                 |                           |                    |   |
| 8. (+) Dyledwyr a balansau stoc                             | 2,124                     | 15,574             | <b>Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:</b> Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff a balansau stoc a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn.   |
| 9. (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau                 | 356,267                   | 508,779            | <b>Pob cyfrif:</b> Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â chysoniad y banc.                |
| 10. (-) Credydwyr   | -22,178                   | -26,823            | <b>Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:</b> Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw costau benthyg) ar ddiwedd y flwyddyn.  |
| 11. (=) Balansau a gariwyd ymlaen                           | 336,213                   | 497,529            | <b>Dylai cyfanswm y balansau fod yn gyson â llinell 7 uchod:</b> Nodwch gyfanswm (8+9-10).  |
| 12. Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor             | 0                         | 0                  | Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag unrhyw asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth.  |
| 13. Cyfanswm benthyciadau                                   | 0                         | 0                  | Balans cyfalaf dyledus pob benthygiad o drydydd partiön ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB).  |

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol


Rydym yn cydnabod, fel aelodau o'r **Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**, ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020, ein bod wedi gwneud y canlynol:

|  | Cytunwyd?                           |                                     | Mae 'DO' yn golygu bod y Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:   | Cyf y Dangosydd Perfformiad |
|--|-------------------------------------|-------------------------------------|---|-----------------------------|
|  | Do                                  | Naddo*                              |   |                             |
| <p>1. Rydym wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwaith rheoli ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a</li> <li>• pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu.</li> </ul>   | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Pennu ei gyllideb a rheoli ei arian yn briodol a pharatoi a chymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel y rhagnodir gan y gyfraith.  | 6, 12                       |
| <p>2. Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac adolygu ei heffeithiolrwydd.</p>  | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth.  | 6, 7                        |
| <p>3. Rydym wedi cymryd yr holl gamau rhesymol i roi sicrwydd i ni'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gynnal ei fusnes nac ar ei sefyllfa ariannol.</p> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny.                                       | 6                           |
| <p>4. Rydym wedi darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.</p>   | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â diddordeb archwilio cyfrifon y corff yn unol â'r hyn a nodir yn yr hysbysiad o'r archwiliad.  | 6, 23                       |
| <p>5. Rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen.</p>   | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu'r corff a delio â hwy'n briodol.   | 6, 9                        |
| <p>6. Rydym wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol.</p>  | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff.              | 6, 8                        |
| <p>7. Rydym wedi ystyried a oes unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, wedi cael effaith ariannol ar y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu.</p> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol. | 6                           |
| <p>8. Rydym wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilywyr mewnol ac allanol.</p>   | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilywyr mewnol ac allanol.  | 6, 8, 23                    |

\* Ar ddalen ar wahân, rhwng esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb 'naddo' a roddwyd; a disgrifiwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

## Cymeradwyaeth ac ardystiad y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac am baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

|   |  |
|---|--|
| <b>Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol</b><br>Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020. | <b>Cymeradwyaeth gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru</b><br>Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu cymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru o dan gyfeirnod cofnod:<br>Nodwch y cyfeirnod cofnod a dyddiad y cyfarfod |
| <b>Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol:</b>    | <b>Llofnod Cadeirydd y cyfarfod:</b> angen llofnod   |
| <b>Enw:</b> Dafydd L Edwards  | <b>Enw:</b> angen enw  |
| <b>Dyddiad:</b> 20/05/2020  | <b>Dyddiad:</b> dd/mm/yyyy   |

## Ailgymeradwyaeth ac ailardystiad gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (dim ond os bydd y ffurflen flynyddol wedi ei diwygio yn yr archwiliad)

|   |   |
|---|---|
| <b>Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol</b><br>Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020. | <b>Cymeradwyaeth gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru</b><br>Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru o dan gyfeirnod cofnod:<br>Nodwch y cyfeirnod cofnod a dyddiad y cyfarfod |
| <b>Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol:</b> angen llofnod   | <b>Llofnod Cadeirydd y cyfarfod:</b> angen llofnod  |
| <b>Enw:</b> angen enw   | <b>Enw:</b> angen enw   |
| <b>Dyddiad:</b> dd/mm/yyyy  | <b>Dyddiad:</b> dd/mm/yyyy  |

## Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r archwilydd allanol yn cynnal yr archwiliad ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd ganddo. Ar sail ei adolygiad o'r Ffurflen Flynyddol a'r wybodaeth ategol, mae'n nodi pa un a fydd unrhyw fater a ddaw i'w sylw yn peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

Ardystiwn ein bod wedi cwblhau'r archwiliad o'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 ar gyfer:

### Adroddiad yr archwilydd allanol

[Ac eithrio'r materion a nodir isod]\* Ar sail ein hadolygiad, yn ein barn ni, mae'r wybodaeth yn y Ffurflen Flynyddol yn cydymffurfio ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i'n sylw sy'n peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

[[Mae'r materion hyn yn ogystal â]\* Materion eraill nad ydynt yn effeithio ar ein barn yr ydym yn eu dwyn i sylw'r corff a'n hargymhellion ar gyfer gwella wedi'u cynnwys yn ein hadroddiad i'r corff dyddiedig \_\_\_\_\_.]

### Materion eraill ac argymhellion

Ar sail ein hadolygiad, tynnwn sylw'r corff at y materion a'r argymhellion canlynol nad ydynt yn effeithio ar ein barn archwilio ond y dylai'r corff ymdrin â hwy.

(Parhewch ar daflen ar wahân os oes angen.)

Enw'r archwilydd allanol:

Llofnod yr archwilydd allanol:

Dyddiad:

Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

\* Dileer fel y bo'n briodol.

## Adroddiad archwilio mewnol blynyddol ar gyfer:

Enw'r corff:

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Mae archwiliad mewnol y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2020.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ba un a oedd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd bwysig, yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

|  | Cytunwyd?                        |                       |                                  |                       | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff) |
|--|----------------------------------|-----------------------|----------------------------------|-----------------------|---|
|  | Do                               | Naddo*                | Amh.                             | Heb ei gynnwys**      |   |
| 1. Mae'r llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn.   | <input checked="" type="radio"/> | <input type="radio"/> | <input type="radio"/>            | <input type="radio"/> | Mewnosodwch destun  |
| 2. Bodlonwyd rheoliadau ariannol, cefnogwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.  | <input checked="" type="radio"/> | <input type="radio"/> | <input type="radio"/>            | <input type="radio"/> | Mewnosodwch destun  |
| 3. Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli.  | <input checked="" type="radio"/> | <input type="radio"/> | <input type="radio"/>            | <input type="radio"/> | Mewnosodwch destun  |
| 4. Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol. | <input checked="" type="radio"/> | <input type="radio"/> | <input type="radio"/>            | <input type="radio"/> | Mewnosodwch destun  |
| 5. Cafodd yr incwm disgwylidig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n syth, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.   | <input checked="" type="radio"/> | <input type="radio"/> | <input type="radio"/>            | <input type="radio"/> | Mewnosodwch destun  |
| 6. Cefnogwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.  | <input type="radio"/>            | <input type="radio"/> | <input checked="" type="radio"/> | <input type="radio"/> | Mewnosodwch destun  |
| 7. Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymradwyaethau a gofnodwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol.  | <input checked="" type="radio"/> | <input type="radio"/> | <input type="radio"/>            | <input type="radio"/> | Mewnosodwch destun  |
| 8. Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol.  | <input type="radio"/>            | <input type="radio"/> | <input checked="" type="radio"/> | <input type="radio"/> | Mewnosodwch destun  |

|  | Cytunwyd?                           |                          |                          |                          | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff) |
|--|-------------------------------------|--------------------------|--------------------------|--------------------------|---|
|  | Do                                  | Naddo*                   | Amh.                     | Heb ei gynnwys**         |   |
| 9. Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol.   | <input checked="" type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | Mewnosodwch destun  |
| 10. Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u cefnogi gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol. | <input checked="" type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | Mewnosodwch destun  |

**Roedd rheolaethau digonol yn bodoli ar gyfer unrhyw feysydd risg a nodwyd gan y Pwyllgor (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill isod neu ar dudalennau ar wahân os oes angen):**

|                        | Cytunwyd?                |                          |                          |                          | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff) |
|------------------------|--------------------------|--------------------------|--------------------------|--------------------------|---|
|                        | Do                       | Naddo*                   | Amh.                     | Heb ei gynnwys**         |   |
| 11. Nodwch y maes risg | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | Mewnosodwch destun  |
| 12. Nodwch y maes risg | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | Mewnosodwch destun  |
| 13. Nodwch y maes risg | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | Mewnosodwch destun  |

\* Os atebwyd 'naddo', nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid rheoli a nodwyd (ychwanegwch dudalennau ar wahân os oes angen).

\*\* Os atebwyd 'heb ei gynnwys', nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i'r archwilydd mewnol esbonio pam nad oes angen hynny.

[Mae fy nghanyfddiadau manwl a'm hargymhellion yr wyf yn eu dwyn i sylw'r Pwyllgor wedi'u cynnwys yn fy adroddiad manwl i'r Pwyllgor dyddiedig Mai 2020.]

**Cadarnhau archwiliad mewnol**

Rwyf/Rydym yn cadarnhau nad wyf i/ydym ni, fel archwilydd mewnol y Pwyllgor, wedi ymgymryd â swyddogaeth reoli na gweinyddol o fewn y corff (gan gynnwys paratoi'r cyfrifon) nac fel aelod o'r corff yn ystod y blynyddoedd ariannol 2018-19 a 2019-20. Cadarnhaf hefyd na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ynghylch fy mhenodiad.

**Enw'r unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol:** Luned Fôn Jones, Rheolwr Archwilio, Cyngor Gwynedd

**Llofnod yr unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol:** *Luned Fôn Jones*

**Dyddiad:** 14/05/2020



## Nodiadau cyfarwyddyd ar gwblhau'r Ffurflen Flynyddol

- Rhaid i chi gymhwyso arferion priodol wrth baratoi'r ffurflen flynyddol hon. Nodir yr arferion priodol yn y Canllaw i Ymarferwyr.
- Gwnewch yn siŵr bod y Ffurflen Flynyddol wedi ei chwblhau'n llawn, h.y. dim blychau coch gwag. Ceisiwch osgoi gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r ffurflen wedi'i chwblhau. Os na allwch osgoi hyn, rhowch linell drwy'r cofnodion anghywir, sicrhewch fod y diwygiadau wedi'u tynnu at sylw'r corff gyda llythrennau cyntaf eich enw wrth eu hymyl a'ch bod wedi rhoi esboniad i'r archwilydd allanol. **Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.** Caiff ffurflenni blynyddol anghyflawn neu rai sy'n cynnwys diwygiadau heb eu cymeradwyo a/neu eu hesbonio neu hylif cywiro eu dychwelyd heb eu harchwilio a gall olygu costau ychwanegol. Gofynnwch i'ch archwilydd am gopi electronig o'r ffurflen os oes angen un.
- Gofynnwch i ail berson, y Cadeirydd neu aelod efallai, adolygu eich Ffurflen Flynyddol er mwyn sicrhau ei bod yn gyflawn cyn anfon y ffurflen wreiddiol at yr archwilydd.
- Gwnewch yn siŵr bod eich datganiadau cyfrifyddu yn gywir, bod y balans a gariwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol (llinell 7 o 2019) yn cyfateb i'r balans a ddygwyd ymlaen yn y flwyddyn gyfredol (llinell 1 o 2020). Esboniwch unrhyw wahaniaethau rhwng ffigurau 2019 ar y ffurflen flynyddol hon a'r symiau a gofnodwyd yn ffurflen flynyddol y llynedd.
- Rhowch esboniad llawn am unrhyw amrywiannau sylweddol yn y datganiadau ariannol. Peidiwch ag anfon copi o'ch cofnodion cyfrifyddu manwl yn lle'r esboniad hwn. Mae'r archwilydd allanol am wybod eich bod chi'n deall y rhesymau dros yr holl amrywiannau. Cofiwch gynnwys dadansoddiad manwl i ategu eich esboniad a byddwch yn benodol ynghylch gwerthoedd elfennau unigol sy'n gyfrifol am yr amrywiannau.
- Sicrhewch fod y copi o'r cysoniad banc y byddwch yn ei anfon at eich archwilydd gyda'r copi o'r Ffurflen Flynyddol yn cynnwys eich **holl** gyfrifon banc a balansau ariannol. Os nad oes unrhyw eitemau cysoni, nodwch hyn a rhowch dystiolaeth o falansau'r banc. Os oes gan eich Pwyllgor unrhyw fuddsoddiadau byrdymor, nodwch eu gwerth ar y cysoniad banc. Dylai'r archwilydd allu gyfateb eich cysoniad banc i linell 9 yn y datganiadau cyfrifyddu. Ceir rhagor o gymorth ar gysoniadau banc yn y Canllaw i Ymarferwyr.
- Mae'n ofynnol i bob pwyllgor anfon gwybodaeth at yr archwilydd allanol, i ategu'r honiadau a wnaed yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hyd yn oed os nad ydych chi wedi gwneud hynny yn flaenorol.** Bydd eich archwilydd yn dweud wrthy'ch pa wybodaeth y mae angen i chi ei darparu. Sicrhewch eich bod yn darllen yr hysbysiad archwilio yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae'r archwilydd wedi gofyn amdani. Dylech anfon **copïau** o'r cofnodion gwreiddiol (a ardystiwyd gan y Clerc a'r Cadeirydd fel copïau cywir) at yr archwilydd allanol ac nid y dogfennau gwreiddiol eu hunain.
- Peidiwch ag anfon unrhyw wybodaeth at yr archwilydd nad yw wedi gofyn yn benodol amdani. Nid yw hyn o fudd.
- Os bydd yn rhaid i'r archwilydd adolygu gwybodaeth nas gofynnwyd amdani, gofyn eto am wybodaeth, neu os caiff gysoniad banc anghyflawn neu esboniad o amrywiannau neu os caiff ddogfennau gwreiddiol y mae'n rhaid eu dychwelyd, bydd yr archwilydd yn mynd i gostau ychwanegol y mae ganddo hawl i godi ffioedd ychwanegol amdanynt.
- Dylech ateb pob gohebiaeth â'r archwilydd allanol yn brydlon.** Bydd hyn yn eich helpu i gyflawni eich rhwymedigaethau statudol a bydd yn lleihau cost yr archwiliad.
- Noder, os byddwch yn cwblhau'r ffurflen electronig, rhaid i chi argraffu'r ffurflen er mwyn iddi gael ei hardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a'i llofnodi gan y Cadeirydd cyn ei hanfon at yr archwilydd.**

| Rhestr wirio cwblhau - Bydd ateb 'Naddo' yn golygu nad ydych o bosibl wedi bodloni'r gofynion |  | Cwblhawyd? |       |
|---|--|------------|-------|
| Cyflwyniad cyntaf i'r archwilydd allanol  |  | Do         | Naddo |
| <b>Cyfrifon</b>   | A yw'r papurau i'w hanfon at yr archwilydd allanol yn cynnwys esboniad o amrywiadau sylweddol rhwng y llynedd ac eleni?  |            |       |
|   | A yw'r cysoniad banc ar 31 Mawrth 2020 yn gyson â Llinell 9?   |            |       |
| <b>Cymeradwyo</b>   | A yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi ardystio'r datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rheoliad 15 (1)) erbyn 15 Mehefin 2020 fan bellaf?   |            |       |
|   | A yw'r corff wedi cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu cyn 15 Mehefin 2020 ac a yw Adran 3 wedi'i llofnodi a'r dyddiad wedi'i nodi gan yr unigolyn a oedd yn cadeirio'r cyfarfod pan roddwyd y gymeradwyaeth?                   |            |       |
| <b>Pob adran</b>  | A yw'r holl flychau pinc yn y datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu llenwi ac esboniadau wedi'u rhoi pan fo angen?   |            |       |
|   | A yw'r holl wybodaeth y gofynnodd yr archwilydd allanol amdani wedi'i hanfon gyda'r Ffurflen Flynyddol hon? Cyfeiriwch at eich hysbysiad o archwiliad ac unrhyw atodlenni ychwanegol a ddarparwyd gan eich archwilydd allanol. |            |       |

| Os caiff y cyfrifon eu diwygio ar ôl derbyn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar faterion sy'n codi |  | Do | Naddo |
|---|--|----|-------|
| <b>Cyfrifon</b>   | A yw'r datganiadau cyfrifyddu sydd wedi eu diwygio wedi'u cymeradwyo ac Adran 3 wedi'i llofnodi eto a'r dyddiad wedi'i nodi eto fel tystiolaeth o gymeradwyaeth y Bwrdd i'r diwygiadau cyn eu hailgyflwyno i'r archwilydd? |    |       |





# ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL

## CYFRIFON BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU



## CYFRIFON BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

### 1. Cefndir

1.1 Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn grŵp o sefydliadau preifat a chyhoeddus sydd wedi ymrwmo i hyrwyddo twf economaidd yn Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam. Mae eu hamcanion allweddol yn cynnwys annog buddsoddiad busnes yng Ngogledd Cymru, gan helpu cwmnïau lleol i fanteisio ar gyfleoedd y gadwyn gyflenwi, ac annog sgiliau cysylltiedig â gwaith yn y rhanbarth.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb datganiad blynyddol y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn 2019/20, yn ogystal â chadarnhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad  |
|----------------|---|
| <b>UCHEL</b>   | <b>Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.</b> |

### 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiadau cyfrifyddu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. Mae cyfrifon priodol wedi'u cadw a chynhelir cysoniadau banc fel rhan o weithgareddau ar draws y Cyngor.

4.2 Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd gwelwyd fod y sampl o daliadau a ddetholwyd wedi eu cefnogi gydag anfonebau perthnasol i'r cyfnod dan sylw, a bod treth ar werth wedi ei drin yn briodol. Roedd hefyd trywydd priodol i sampl o drosglwyddiadau eraill â wnaethpwyd drwy drosglwyddiadau mewnol.

4.3 Cyflwynwyd cofrestr risg i'r Bwrdd ar y 12<sup>fed</sup> o Ebrill 2019 sy'n canolbwyntio ar risgiau sy'n codi o'r rhaglen waith cychwynnol a gyflwynwyd i'r Bwrdd ar 1<sup>af</sup> o Chwefror 2019. Ychwanegir risgiau i'r gofrestr yn ystod y flwyddyn.

4.4 Gweinyddir costau staff drwy Uned Cyflogau Cyngor Gwynedd ble chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. Cofnodir y costau staffio yma yn briodol yn y datganiad a sicrhawyd bod gan sampl o'r swyddogion yma gyntundebau cyflogaeth priodol.

## CYDNABYDDIAETH

Yr archwiliwr ac awdur yr adroddiad hwn yw:

Bleddyn Rhys  
Arweinydd Archwilio  
BleddynRhys@gwynedd.llyw.cymru  
Est. 34680  
01286 682680

Adolygwyd yr adroddiad gan:

Luned Fôn Jones  
Rheolwr Archwilio  
LunedFonJones@gwynedd.llyw.cymru  
Est. 34687  
01286 682687

Hoffai'r archwiliwr ddiolch i'r swyddogion perthnasol am eu cydweithrediad wrth baratoi'r adroddiad archwilio hwn.

## LUNED FÔN JONES

### Rheolwr Archwilio

Mai 2020

### Dosbarthiad:

Cadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru  
Cyfarwyddwr Rhaglen  
Pennaeth Cyllid  
Uwch Reolwr Cyllid  
Cyfrifydd Grwp - Corfforaethol a Phrosiectau  
Uwch Gyfrifydd - Adnoddau a Chorfforaethol  
Uwch Swyddog Gweithredol  
Pennaeth Cynorthwyol - Cyllid



north wales economic ambition board  
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

## ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

12/06/2020

---

**Title:** Cyllideb 2020/21

**Author:** Dafydd L Edwards, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya

---

### 1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cynnig yn ffurfiol Cyllideb Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2020/21. Roedd yr adroddiad yma wedi ei ddsbarthu yn wreiddiol gydag agenda y cyfarfod Bwrdd oedd i'w gynnal ar 20 Mawrth 2020, lle roedd dau senario cyllideb wedi'u cynnwys. Er nad yw'r adroddiad dilynol heb newid o'r papur gwreiddiol a gefnogwyd gan pob aelod Bwrdd trwy ebost ar ddiwedd Mawrth, gan fod y llythyr grant ffurfiol ESF wedi ei dderbyn gan WEFO ar ôl hynny, dim ond cyllideb "Senario 2" sydd nawr yn berthnasol:-


- Senario 2 - Cyllideb 2020/21 **gydag** Arian Grant ESF (Atodiad 1b).

### 2. Y Penderfyniad a Geisir

2.2 Cymeradwyo Cyllideb 2020/21 gydag Arian Grant ESF (Atodiad 1b).

2.3 Yn gofyn i'r Bwrdd roi yr hawl i'r Cyfarwyddwr Rhaglen mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd a'r Cadeirydd, i ymrwymo hyd at £100,000 ychwanegol o'r gronfa wrth gefn yn ystod y flwyddyn, ar y pennawd Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau pe bai angen hynny, er mwyn cynnal a gwireddu amserlen y rhaglen waith ar gyfer y Cynllun Twf terfynol.

---



north wales economic ambition board  
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**20/03/2020**

---

**Teitl:** Cyllideb 2020/21

**Awdur:** Dafydd L. Edwards, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya

---

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cynnig Cyllideb 2020/21 ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae dau senario wedi'u cynnwys:-
- Senario 1 - Cyllideb 2020/21 heb Arian Grant ESF (Atodiad 1a)
  - Senario 2 - Cyllideb 2020/21 gydag Arian Grant ESF (Atodiad 1b).

**2. Y Penderfyniad a Geisir**

- 2.1 Cymeradwyo Cyllideb 2020/21 heb Arian Grant ESF (Atodiad 1a).
- 2.2 Cymeradwyo Cyllideb 2020/21 gydag Arian Grant ESF (Atodiad 1b) os / pan derbynnir cymeradwyaeth ffurfiol am y grant.
- 2.3 Yn gofyn i'r Bwrdd roi yr hawl i'r Cyfarwyddwr Rhaglen mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd a'r Cadeirydd, i ymrwymo hyd at £100,000 ychwanegol o'r gronfa wrth gefn yn ystod y flwyddyn, ar y pennawd Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau (Senario 1 a 2) pe bai angen hynny er mwyn cynnal a gwireddu amserlen y rhaglen waith ar gyfer y Cynllun Twf terfynol.
-

### **3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad**

- 3.1 Gosod y gyllideb arfaethedig fesul pennawd gwariant a'r ffrydiau ariannu cyfatebol ar gyfer y flwyddyn.
- 3.2 Er mwyn gweithredu'n effeithiol o fewn y cyllid sydd ar gael, mae angen i gyllideb flynyddol gael ei chymeradwyo ar gyfer y Bwrdd Uchelgais.
- 3.3 Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Rhaglen i wario arian yn unol â'r gyllideb gymeradwy.

### **4. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

- 4.1 Y prif newidiadau rhwng cyllideb gwariant 2019/20 a chyllideb gwariant 2020/21 yw cynnydd yn y costau staffio a gostyngiad yn y gyllideb allanol ar gyfer cynllunio, datblygu a chefnogi prosiectau.
- 4.2 Yng nghyllideb 2020/21, nid oes tybiaeth wedi'i wneud y bydd Incwm Grant y Cais Twf wedi'i dderbyn yn ystod y flwyddyn, a phe byddai unrhyw incwm yn cael ei dderbyn yn ystod y chwarter olaf, byddwn yn ymdrin â hynny ar y pryd.
- 4.3 Yn ogystal â'r Gyllideb Sylfaenol, bydd angen trosglwyddiadau unwaith ac am byth i'w hariannu o'r gronfa wrth gefn a glustnodir yn ystod y flwyddyn, i ariannu gwariant dan y penawdau canlynol yn bennaf:-
  - "Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus" - ar gyfer y wefan, brandio a'r strategaeth cyfathrebu.
  - "Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau" - datblygu'r Achosion Busnes Llawn sydd eu hangen i gyrraedd Cynllun Terfynol gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.
- 4.4 Ar hyn o bryd, mae'r cais grant ESF, sy'n seiliedig ar gostau staff, yng nghamau olaf y broses gymeradwyo a disgwylir penderfyniad cyn diwedd mis Mawrth 2020. Mae'r cyllid hwn yn hanfodol i sicrhau y cyflawnir rhaglen waith y Swyddfa Rhaglen o fewn yr amserlen gyfredol.
- 4.5 Os na fydd y cais grant ESF yn llwyddiannus, bydd y Cyfarwyddwr Rhaglen yn cyflwyno adroddiad ar wahân i'r Bwrdd dros y misoedd nesaf, gyda chynnig diwygiedig gyda'r opsiynau posib a'r ffynonellau ariannu posib er mwyn cwblhau rhaglen waith y Swyddfa Rhaglen ar amser. Gall hyn olygu cyfraniadau ychwanegol gan y partneriaid.

- 4.6 Yn sgil y farn gryf a ddatganwyd gan y Grŵp Gweithredol ar 6 Mawrth 2020 i gyflawni'r Cynllun Twf yn amserol, mae'r Cyfarwyddwr Rhaglen a'r Rheolwr Gweithrediadau wedi gofyn am yr hawl i ychwanegu cyllideb ychwanegol pellach i'r pennawd Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau pe bai angen hynny yn ystod y flwyddyn. Byddai hwn yn cael ei gyllido o'r gronfa wrth gefn, ac felly yn cwtogi balans y gronfa i ariannu costau unwaith am byth eraill yn y dyfodol.

Swyddfa Rheoli Rhaglen - £864,110 (Senario 1) a £1,468,420 (Senario 2)

- 4.7 Mae'r gyllideb ar gyfer y Swyddfa Rheoli Rhaglen yn seiliedig ar bum swydd lawn amser (Senario 1) ac ugain swydd lawn amser (Senario 2). Mae manylion pellach am y strwythur staffio ar gael yn yr adroddiad ESF a gyflwynwyd i'r Bwrdd Uchelgais ar 24 Ionawr 2020.

<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s25697/Eitem%207%20-%20Adroddiad%20ESF.pdf?LLL=1>

- 4.8 Mae'r Gyllideb Gwariant Gweithwyr wedi'i gosod ar y dybiaeth y rhoddir y cynnydd chwyddiant o 2% i gyflogau Llywodraeth Leol yn 2020/21, fodd bynnag, mae hyn yn destun trafodaethau parhaus.
- 4.9 Yn ogystal, mae'n cynnwys cyllideb ar gyfer Teithio a Chynhaliaeth; Hyfforddiant; Ymgysylltu a Chyfarfodydd; Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus; Cyflenwadau a Gwasanaethau; Eiddo. Hefyd, mae'r cyfraniad arian cyfatebol tuag at y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol gan y chwe Awdurdod Lleol wedi'i gynnwys, ynghyd â'r costau Trafnidiaeth sy'n gymwys ar gyfer Grant Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru).

Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol - £139,920 (Senario 1) a £155,770 (Senario 2)

- 4.10 Mae'r Corff Atebol yn darparu'r gwasanaethau cefnogol sydd eu hangen i hwyluso gwaith y Cyd-bwyllgor, ac mae'r gyllideb ar gyfer 2020/21 yn cynnwys Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid, Cyfreithiol, Cefnogaeth Gorfforaethol a Thechnoleg Gwybodaeth.
- 4.11 Caiff ystod y gwasanaethau a gynigir, y dulliau codi ffi a'r amcangyfrif costau eu cynnwys yn y Cytundebau Lefel Gwasanaeth unigol a gaiff eu cytuno gyda phob Adran.

- 4.12 Ar y cyfan, mae cyllideb Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol yn debyg i 2019/20, ond mae Senario 2 yn cynnwys y costau uwch sy'n ymwneud â'r Grant ESF a'r cynnydd cyfatebol mewn niferoedd staff.

#### Y Cyd-bwyllgor

4.13 Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol - £18,000

Mae hyn yn cynnwys cyllideb ar gyfer cefnogaeth gyfreithiol allanol a fydd ei hangen yn bennaf wrth ddrafftio Cytundeb Llywodraethu 2 a chydag achosion busnes y rhaglenni/prosiectau unigol.

4.14 Ymgynghoriaeth Trysorlys - £10,000

Bydd angen mewnbwn gan Ymgynghoriaeth Trysorlys Allanol yng nghyswllt adnabod a dosbarthu costau tybiannol er mwyn ymdrin â llif arian negyddol ac ati.

4.15 Ffi Archwilio Allanol - £1,500

Bydd Cyfrifon y Cyd-bwyllgor yn destun archwiliad blynyddol gan Archwilwyr Allanol Cyngor Gwynedd, ac mae amcan gyllideb wedi'i seilio ar y ffioedd y mae Cyd-bwyllgorau bach tebyg eraill sy'n cynhyrchu adroddiad blynyddol wedi'i defnyddio.

4.16 Bwrdd Cyflawni Busnes - £20,000

Mewn adroddiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd Uchelgais ar 17 Mai 2019, cymeradwywyd cyfraniad blynyddol o hyd at £20,000 er mwyn cefnogi'r Bwrdd Cyflawni Busnes.

#### Cyfraniadau Ariannu

4.17 Cyfraniadau Partneriaid (GA1) - (£400,000)

Yn unol â Chytundeb Llywodraethu 1 a Chytundeb Llywodraethu 2 arfaethedig, mae Cyllideb 2020/21 yn cynnwys cyfraniad o £50,000 gan y chwe Chyngor a £25,000 gan y pedwar Ymgynghorydd, i roi cyfanswm cyfraniad o £400,000. Mae cyfraniadau'r partneriaid wedi aros yr un peth ers 2019/20, heb unrhyw gynnydd chwyddiantol er mwyn adlewyrchu'r hyn y cytunwyd arno'n flaenorol fel sail er mwyn i'r partneriaid unigol osod eu cyllidebau ar gyfer 2020/21. Fodd bynnag, bydd angen i gyfraniadau'r partneriaid gynyddu yng nghyllidebau'r dyfodol i adlewyrchu'r chwyddiant ar gyflogau.



4.18 Cyfraniadau Partneriaid (Eraill) - (£240,000)

Mae'r gyllideb wedi'i sefydlu gyda'r dybiaeth y bydd y cyfraniadau hanesyddol, sef cyfraniad cyfartal gan bob un o'r chwe Chyngor, yn parhau yn 2020/21. Ariannir cyllideb y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol o £42,290 o'r cyfraniadau hyn.

4.19 Grant Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru) - (£109,890)

Mae grant trafndiaeth gyhoeddus o £155,000 wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac amcangyfrifir y bydd £109,890 ar ôl i'w hawlio o'r grant yn ystod 2020/21.

4.20 Cyllid Blaenoriaeth 5 y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF) - (£651,330)

Os caiff y cais Grant ESF ei gymeradwyo, gellid hawlio £2.9m ar gyfer y cyfnod hyd at fis Mehefin 2023, gyda chostau staff 2020/21 yn denu £651,330 o'r arian grant hwn. Pe byddai'n llwyddiannus, gellid hawlio costau'n ôl-weithredol o fis Gorffennaf 2018 ymlaen hefyd.

Cronfa Wrth Gefn wedi'i Glustnodi - (£303,640) (Senario 1) a (£272,470) (Senario 2)

4.21 Mae'r Adroddiad Adolygiad Trydydd Chwarter a gyflwynwyd i'r Bwrdd ar 24 Ionawr 2020 yn rhagamcanu gweddill o £117,424 i'w drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ar ddiwedd 2019/20, i roi amcangyfrif o £453,637 yn weddill i fod ar gael yn y dyfodol.

4.22 Mae cyllideb Senario 1 yn defnyddio £303,640 (£109,480 i gydbwysu'r gyllideb sylfaenol a £194,160 i ariannu gwariant unwaith ac am byth) sydd yn gadael gweddill o £150,000 yn y gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.

4.23 Mae cyllideb Senario 2 yn defnyddio £272,470 i ariannu gwariant unwaith ac am byth sy'n gadael gweddill o £358,000 yn y gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol (yn cynnwys y grant ESF wedi'i ôl-ddyddio).

## 5. Y Cyd-destun Llywodraethol

5.1 Fel y nodir yng Nghytundeb Llywodraethu 1, a Chytundeb Llywodraethu 2 arfaethedig, mae angen i'r Corff Atebol baratoi'r gyllideb flynyddol ac mae angen i'r Cyd-bwyllgor gytuno iddi.

- 5.2 Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2020/21 wedi'i pharatoi ar sail y rolau, y gweithgareddau a'r cyfrifoldebau sydd wedi'u hadnabod hyd yma, gyda'r disgwyliad bod lefel yr adnoddau a glustnodir yn cael ei hadolygu'n barhaus a chaiff ei diweddaru wrth i'r prosiectau fwrw ymlaen ac wrth i ragor o wybodaeth fod ar gael.
- 5.3 Caiff adroddiadau monitro cyllidebau rheolaidd eu cyflwyno i staff y Swyddfa Rheoli Rhaglen a'r Grŵp Gweithredol. Gwneir adolygiad manwl pellach ddiwedd Awst 2020 a Thachwedd 2020 i'w cyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais, a chaiff unrhyw faterion eu hamlygu a chatau priodol eu cymryd.

## **6. Ymgynghoriadau a Gynhaliwyd**

- 6.1 Cyflwynwyd Atodiadau 1a ac 1b, ynghyd â chrynodeb o gynnwys yr adroddiad hwn, i'r Grŵp Gweithredol ar 6 Mawrth 2020.

## **7. Atodiadau**

Atodiad 1a - Cyllideb y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2020/21 heb arian Grant ESF.

Atodiad 1b - Cyllideb y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2020/21 gydag arian Grant ESF.

## **YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

### **i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

Rwy'n nodi y cais i ddefnyddio elfen o'r arian wrth gefn ar gyfer cynnal momentwm. Mae'r rhesymeg ar gyfer hyn yn cael ei amlinellu yn yr adroddiad er caniatâu i'r Bwrdd ddod i benderfyniad. Rwy'n cytuno a ffurf y dirprwyo fydd yn rhoi sicrwydd ynglyn a defnydd yr adnodd.

### **ii. Swyddog Cyllid Statudol - Corff Atebol:**

Awdur yr adroddiad hwn.

Senario 1 - Cyllideb y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2020/21 heb arian Grant ESF.

Atodiad 1a

| Gwariant   | Cyllideb Sylfaenol<br>(£) | Trosglwyddiadau<br>unwaith ac am byth<br>(£) | Cyfanswm<br>Cyllideb<br>(£) |
|--|---------------------------|--|-----------------------------|
| <b>Swyddfa Rheoli Rhaglen</b>                        |                           |  |                             |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal)       | 423,690                   |  | 423,690                     |
| Teithio a Chynhaliaeth                               | 10,000                    |  | 10,000                      |
| Hyfforddiant   | 10,000                    |  | 10,000                      |
| Ymgysylltu a Chyfarfodydd                            | 11,620                    |  | 11,620                      |
| Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus                 | 39,460                    | 10,540                                       | 50,000                      |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau                           | 10,000                    |  | 10,000                      |
| Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol                           | 42,290                    |  | 42,290                      |
| Eiddo  | 13,000                    |  | 13,000                      |
| Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau            |                           | 183,620                                      | 183,620                     |
| Tud. 79 Trafnidiaeth                                 |                           | 109,890                                      | 109,890                     |
| <b>Cyfanswm Swyddfa Rheoli Rhaglen</b>               | <b>560,060</b>            | <b>304,050</b>                               | <b>864,110</b>              |
| <b>Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol</b>          |                           |  |                             |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid                       | 93,110                    |  | 93,110                      |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro)           | 20,250                    |  | 20,250                      |
| Cefnogaeth Gorfforaethol                             | 23,060                    |  | 23,060                      |
| Technoleg Gwybodaeth                                 | 3,500                     |  | 3,500                       |
| <b>Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol</b> | <b>139,920</b>            |  | <b>139,920</b>              |
| <b>Cyd-bwyllgor</b>                                  |                           |  |                             |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol                       | 18,000                    |  | 18,000                      |
| Ymgynghoriaeth Trysorlys                             | 10,000                    |  | 10,000                      |
| Ffi Archwilio Allanol                                | 1,500                     |  | 1,500                       |
| Bwrdd Cyflawni Busnes                                | 20,000                    |  | 20,000                      |
| <b>Cyfanswm Cyd-bwyllgor</b>                         | <b>49,500</b>             |  | <b>49,500</b>               |
| <b>Cyfanswm Gwariant</b>                             | <b>749,480</b>            | <b>304,050</b>                               | <b>1,053,530</b>            |

Senario 1 - Cyllideb y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2020/21 heb arian Grant ESF.

Atodiad 1a

|  | Cyllideb Sylfaenol<br>(£) | Trosglwyddiadau<br>unwaith ac am byth<br>(£) | Cyfanswm<br>Cyllideb<br>(£) |
|--|---------------------------|--|-----------------------------|
| <b>Incwm</b>                             |                           |  |                             |
| <b>Cyfraniadau Ariannu</b>               |                           |  |                             |
| <b>Cyfraniadau Partneriaid</b>           |                           |  |                             |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy           | (50,000)                  |  | (50,000)                    |
| Cyngor Sir Ddinbych                      | (50,000)                  |  | (50,000)                    |
| Cyngor Sir y Fflint                      | (50,000)                  |  | (50,000)                    |
| Cyngor Gwynedd                           | (50,000)                  |  | (50,000)                    |
| Cyngor Sir Ynys Môn                      | (50,000)                  |  | (50,000)                    |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam         | (50,000)                  |  | (50,000)                    |
| Prifysgol Bangor                         | (25,000)                  |  | (25,000)                    |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam                | (25,000)                  |  | (25,000)                    |
| Coleg Cambria                            | (25,000)                  |  | (25,000)                    |
| Grŵp Llandrillo Menai                    | (25,000)                  |  | (25,000)                    |
| <b>Cyfraniadau Partneriaid - Eraill</b>  |                           |  |                             |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy           | (40,000)                  |  | (40,000)                    |
| Cyngor Sir Ddinbych                      | (40,000)                  |  | (40,000)                    |
| Cyngor Sir y Fflint                      | (40,000)                  |  | (40,000)                    |
| Cyngor Gwynedd                           | (40,000)                  |  | (40,000)                    |
| Cyngor Sir Ynys Môn                      | (40,000)                  |  | (40,000)                    |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam         | (40,000)                  |  | (40,000)                    |
| Grant Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru) |                           | (109,890)                                    | (109,890)                   |
| Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi       | (109,480)                 | (194,160)                                    | (303,640) *                 |
| <b>Cyfanswm Incwm</b>                    | <b>(749,480)</b>          | <b>(304,050)</b>                             | <b>(1,053,530)</b>          |
| <b>Cyllideb Net</b>                      | <b>0</b>                  | <b>0</b>                                     | <b>0</b>                    |

Tud. 80

\* Bydd hyn yn gadael amcan balans o £150,000 yn y gronfa wrth gefn.

Senario 2 - Cyllideb y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2020/21 gydag arian Grant ESF.

Atodiad 1b

|  | Cyllideb Sylfaenol | Trosglwyddiadau<br>unwaith ac am byth | Cyfanswm<br>Cyllideb |
|--|--------------------|---------------------------------------|----------------------|
| Gwariant   | (£)                | (£)                                   | (£)                  |
| <b>Swyddfa Rheoli Rhaglen</b>                        |                    |                                       |                      |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal)       | 933,740            |                                       | 933,740              |
| Hysbysebu ac Asesu Ymgeiswyr                         |                    | 10,000                                | 10,000               |
| Teithio a Chynhaliaeth                               | 20,000             |                                       | 20,000               |
| Hyfforddiant   | 10,000             | 10,000                                | 20,000               |
| Ymgysylltu a Chyfarfodydd                            | 15,000             |                                       | 15,000               |
| Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus                 | 37,530             | 62,470                                | 100,000              |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau                           | 10,000             | 10,000                                | 20,000               |
| Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol                           | 42,290             |                                       | 42,290               |
| Eiddo  | 17,500             |                                       | 17,500               |
| Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau            |                    | 180,000                               | 180,000              |
| Trafnidiaeth   |                    | 109,890                               | 109,890              |
| <b>Cyfanswm Swyddfa Rheoli Rhaglen</b>               | <b>1,086,060</b>   | <b>382,360</b>                        | <b>1,468,420</b>     |
| <b>Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol</b>          |                    |                                       |                      |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid                       | 98,110             |                                       | 98,110               |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro)           | 20,250             |                                       | 20,250               |
| Cefnogaeth Gorfforaethol                             | 26,060             |                                       | 26,060               |
| Technoleg Gwybodaeth                                 | 11,350             |                                       | 11,350               |
| <b>Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol</b> | <b>155,770</b>     |                                       | <b>155,770</b>       |
| <b>Cyd-bwyllgor</b>                                  |                    |                                       |                      |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol                       | 18,000             |                                       | 18,000               |
| Ymgynghoriaeth Trysorlys                             | 10,000             |                                       | 10,000               |
| Ffi Archwilio Allanol                                | 1,500              |                                       | 1,500                |
| Bwrdd Cyflawni Busnes                                | 20,000             |                                       | 20,000               |
| <b>Cyfanswm Cyd-bwyllgor</b>                         | <b>49,500</b>      |                                       | <b>49,500</b>        |
| <b>Cyfanswm Gwariant</b>                             | <b>1,291,330</b>   | <b>382,360</b>                        | <b>1,673,690</b>     |

Senario 2 - Cyllideb y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2020/21 gydag arian Grant ESF.

Atodiad 1b

|  | Cyllideb Sylfaenol | Trosglwyddiadau<br>unwaith ac am byth | Cyfanswm<br>Cyllideb |
|--|--------------------|---------------------------------------|----------------------|
| Incwm  | (£)                | (£)                                   | (£)                  |
| <b>Cyfraniadau Ariannu</b>                             |                    |                                       |                      |
| <b>Cyfraniadau Partneriaid</b>                         |                    |                                       |                      |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy                         | (50,000)           |                                       | (50,000)             |
| Cyngor Sir Ddinbych                                    | (50,000)           |                                       | (50,000)             |
| Cyngor Sir y Fflint                                    | (50,000)           |                                       | (50,000)             |
| Cyngor Gwynedd   | (50,000)           |                                       | (50,000)             |
| Cyngor Sir Ynys Môn                                    | (50,000)           |                                       | (50,000)             |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam                       | (50,000)           |                                       | (50,000)             |
| Prifysgol Bangor                                       | (25,000)           |                                       | (25,000)             |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam                              | (25,000)           |                                       | (25,000)             |
| Coleg Cambria  | (25,000)           |                                       | (25,000)             |
| Grŵp Llandrillo Menai                                  | (25,000)           |                                       | (25,000)             |
| <b>Cyfraniadau Partneriaid - Eraill</b>                |                    |                                       |                      |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy                         | (40,000)           |                                       | (40,000)             |
| Cyngor Sir Ddinbych                                    | (40,000)           |                                       | (40,000)             |
| Cyngor Sir y Fflint                                    | (40,000)           |                                       | (40,000)             |
| Cyngor Gwynedd   | (40,000)           |                                       | (40,000)             |
| Cyngor Sir Ynys Môn                                    | (40,000)           |                                       | (40,000)             |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam                       | (40,000)           |                                       | (40,000)             |
| Grant Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru)               |                    | (109,890)                             | (109,890)            |
| Cyllid Blaenoriaeth 5 y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd | (651,330)          |                                       | (651,330)            |
| Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi                     |                    | (272,470)                             | (272,470) *          |
| <b>Cyfanswm Incwm</b>                                  | <b>(1,291,330)</b> | <b>(382,360)</b>                      | <b>(1,673,690)</b>   |
| <b>Cyllideb Net</b>                                    | <b>0</b>           | <b>0</b>                              | <b>0</b>             |

Tud. 82

\* Bydd hyn yn gadael amcan balans o £358,000 yn y gronfa wrth gefn (yn cynnwys y grant ESF wedi'i ôl ddyddio).